# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | SPECIAL MEETING OF THE PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 9 GORFFENNAF 2018 am 2.00 o'r gloch yp | | MONDAY, 9 JULY, 2018 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw fusnes.

3 **MEDRWN MÔN** (Tudalennau 1 - 32)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol gan Brif Swyddog, Medrwn Môn.

4 **STRATEGAETH GWRTH DLODI** (Tudalennau 33 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

5 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 61 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 9 Gorffennaf, 2018 |
| **Pwnc:** | Medrwn Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Codi ymwybyddiaeth am y gwaith a wnaed gan Medrwn Môn ar yr Ynys ac yn cynnig her adeiladol ar y bartneriaeth rhwng y cyngor |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Llinos Medi |
| **Prif Swyddog-Medrwn Môn:** | Sian Purcell |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sian Purcell<br>01248 724944<br>post@medrwnmon.org |
| **Aelodau lleol:** | Nid yn bendol i ward |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| 1. Yr adroddiad yn cael eu nodi. |
| 2. Gofyn i Medrwn Môn fynychu'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn adrodd ar eu gwaith ar yr Ynys fel y gall y bartneriaeth gyda'r cyngor eu craffu. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cynllun y Cyngor Sir 2017-2022 gyda'r uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a'u partneriaethau i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau posib sydd ar gael, a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ledled yr Ynys. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| · Beth yw rôl / berthynas Cyngor Sir Ynys Môn gyda Medrwn Môn? |
| · A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn cyfrannu'n ariannol at Medrwn Môn? |
| · A yw gwaith Medrwn Môn yn cyfrannu tuag at Gynllun y Cyngor Sir? |
| · Sut mae Medrwn Môn yn ceisio ymgysylltu ac adlewyrchu barn y cymunedau? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Medrwn Môn**
Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan llawn a blaenllaw i ddatblygu potential yr ynys.

Mae Medrwn Môn yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth o blith mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol. Mae'n rhan o rwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n weithredol ledled Cymru. Daw'r cyllid tuag at ein gwaith craidd o Lywodraeth Cymru drwy'r WCVA. Mae Medrwn Môn yn rhedeg prosiectau eraill hefyd, sy'n cefnogi ein gwaith craidd.

**Ein Datganiad o Fwriad**
Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potensial yr ynys.

**Ein Ethos**
- Annibynnol
- Di-duedd
- Di-ragfarn
- Cynrychiadol
- Democrataidd

Mae gan y mudiad:
- 9 aelod o staff
- 9 aelod bwrdd
- dros 300 o aelodau.

Mae yna dros 800 o fudiadau a grwpiau ar ein bas data ac maent yn derbyn gwybodaeth perthnasol i'r sector yn reolaidd.

**Ein gweithgareddau**
- Galluogi unigolion i fod yn rhan o'u cymunedau, a bod yn weithredol ynddynt drwy eu hysbysu a'u cyfeirio at ystod eang o gyfleoedd i wirfoddoli a chyfranogi.
- Cefnogi mudiadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr i ragori wrth recriwtio, cadw a rheoli eu gwirfoddolwyr, yn ogystal â datblygu a hyrwyddo eu cyfleoedd i wirfoddoli.

- Cefnogi ymddiriedolwyr i ragori yn y gwaith o lywodraethu eu mudiadau ac i'r mudiadau hynny fod yn hyfyw a chynaliadwy.
- Cefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol i allu cyflenwi canlyniadau o safon, drwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth.
- Sicrhau bod mudiadau gwirfoddol yn gallu ymgysylltu a chyfrannu'n effeithiol i bolisi cyhoeddus a'u cynrychioli yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Cymorth i bobl a chymunedau ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff cyhoeddus.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio'n fras ar y themâu cyffredin canlynol:
- Gwybodaeth a chyngor
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Siapio, dylanwadu ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chydnerthedd y sector
- Codi proffil y sector

Y Sector Gwirfoddol ar Ynys Môn (2005)
- 518+ grwp
- 6095 ymddiredolwyr
- 8718 gwirfoddolwyr
- 437 staff cyflogedig
- £51.8 miliwn wedi'i gyfrannu i'r economi leol
  Ymchwil WCVA (2005)

**Prosiectau a Chyllidwyr – 2018-19**
Llywodraeth Cymru:
- Cefnogi Trydydd Sector Cymru
- GwirVol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:
- Hwylysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Clwstwr PC:
- Cyd-lynu Asedau Lleol
- Linc Cymunedol Môn

Cyngor Sir Ynys Môn:
- Linc Cymunodol Môn (Cronfa Gofal Integredig)
- Cyd-lynu Asedau Lleol (Cronfa Gofal Integredig)

Plant Mewn Angen
- Cyngor Ieuenctid "Llais Ni"

Comic Relief
- #miwnaf

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Parhawn i weithio'n agos gyda'r Rhwydwaith o Gynghorau Sirol Gwirfoddol ar draws Cymru drwy ein Cytundeb Partneriaeth 'Cefnogi Trydydd Sector Cymru', sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, sef y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff

cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi'i ariannu gan Llywodraeth Cymru.
Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i ganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac i weithredu yn unol â hynny. Mae ein gweithgareddau craidd i gryfhau'r trydydd sector a gwirfoddoli yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Galluogi a chefnogi
- Bod yn gatalydd
- Ymgysylltu a dylanwadu

Fframwaith Cyflawni 2018-2019

- Llywodraethu'n Dda
- Gwirfoddoli
- Ymgysylltu a dylanwadu
- Cyllido cynaliadwy

**Llywodraethu'n Dda**

- **Gwybodaeth a chyngor**

Darparu gwybodaeth, cyngor ac offer hygyrch i sicrhau llywodraethu da a galluogi gwelliant parhaus

- **Dysgu a datblygu**

Rhoi cymorth ymarferol i ymddiriedolwyr a staff cyflogedig er mwyn gweithredu'n gyfreithlon ac yn effeithiol

- **Hyrwyddo systemau sicrhau ansawdd**

Helpu mudiadau i ganfod safonau ansawdd perthnasol a gweithio tuag at eu cyflawni

- **Codi proffil y sector**

Codi ymwybyddiaeth o werth a chyfraniad y sector at gymdeithas yng Nghymru.

**Gwirfoddoli**

- **Grantiau**

Cymorth i ddatblygu'r gallu i recriwtio a chefnogi sylfaen gynaliadwy o wirfoddolwyr yng Nghymru

- **Rhwydweithiau a chyfathrebu**

Gweithredu fel cyfrwng i rannu gwybodaeth, dealltwriaeth ac arfer da i gefnogi gwelliant parhaus

- **Recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr**

Cynorthwyo i ganfod, datblygu a hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli hygyrch, o safon ac i baru gwirfoddolwyr â chyfleoedd addas

- **Rheoli gwirfoddolwyr**

Cefnogi mudiadau i fanteisio i'r eithaf ar fuddion gwirfoddoli i bawb

- **Cydnabod a gwobrwyo**

Codi proffil llwyddiannau gwirfoddolwyr unigol a'u cyfraniad ar y cyd at lesiant a chydlyniant Cymru

**Ymgysylltu a dylanwadu**

- **Gwybodaeth a chyngor ar bolisi**

Cymorth i ymgysylltu'n briodol â chyrff llywodraethu perthnasol yn y sector cyhoeddus, a dylanwadu arnynt, drwy ddysgu a datblygu, a datblygu cydberthnasau sydd o fudd i bawb.

- **Llais y trydydd sector**

Dod â her, cynrychiolaeth ac atebolrwydd i strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y sector cyhoeddus, drwy gynrychiolaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar strwythurau llywodraethu yn y sector cyhoeddus, neu drwy helpu i enwebu a chynnwys cynrychiolydd priodol o'r trydydd sector.

- **Ymgyrchu**

Cymorth i ysgogi newid positif yn llesiant dinasyddion Cymru.

**Cyllido Cynaliadwy**

- **Gwybodaeth a chyngor**

Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd i sicrhau cyllid ac adnoddau er mwyn datblygu gallu mudiadau i sicrhau a thyfu incwm

- **Dysgu a datblygu**

Gwella sgiliau, gwybodaeth a gallu mudiadau i godi arian a'i reoli'n effeithiol

- **Codi proffil y sector**

Cydnabod llwyddiannau wrth godi arian, rhannu gwybodaeth ac arfer da a meithrin perthynas well â chyllidwyr

- **Mynediad at wasanaethau ymarferol a buddion**

Darparu mynediad at fuddion sydd wedi'u trefnu'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol a chyfeirio at ffynonellau o gymorth ymarferol

- **Mynediad at gyllid**

Helpu i gynyddu lefelau incwm, amrywio cyllid a dod yn ariannol gynaliadwy

- **Cefnogi modelau darparu gwasanaethau a mentrau newydd**

Cyflwyno ffyrdd newydd o weithio ar gyfer dyfodol cydnerth

**Ein Nodau 2016-17**

- *Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol*

Pobl yn gallu gwirfoddoli gyda chynnydd o ran gallu a brwdfrydedd
Mudiadau a grwpiau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr yn gallu recriwtio, cadw a rheoli gwirfoddolwyr yn well

- *Sector gwirfoddol hyfyw a chynaliadwy*

Mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda ac yn cyflenwi canlyniadau o safon

- *Ymgysylltu effeithiol mewn polisi*

Mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac unigolion wedi'u cysylltu'n well ac yn gallu dylanwadu a chyfrannu at bolisi cyhoeddus.

**CANLYNIADAU 2016-17**

**Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol**
*Canlyniad*:
Mwy o bobl ym Môn yn cael budd o ymwneud â gwirfoddoli

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medrwn Môn yn cefnogi unigolion o bob oed i wirfoddoli drwy hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli, cyfeirio unigolion at fudiadau a'u cynorthwyo drwy'r broses recriwtio a chefnogi pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*

Rydym yn gweithio i sicrhau bod mwy o bobl yn Ynys Môn yn cael budd o ymwneud â gwirfoddoli ac yn dathlu cyfraniad gwirfoddolwyr i wasanaethau cyhoeddus a bywyd dinesig ym Môn.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan fwyfwy pwysig a dynamig yn eu cymunedau ac mae Medrwn Môn yn hyrwyddo, cefnogi a datblygu pob math o wirfoddoli, gwirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol ar lefel leol, gan gydnabod bod eu cyfraniad unigryw yn rhoi manteision i'r rhai sy'n defnyddio/derbyn y gwasanaeth, cymunedau lleol a'r gwirfoddolwyr hwy eu hunain.

- Lleoli 13 o wirfoddolwyr
- Cynnal 1 digwyddiad i ddathlu gwirfoddolwyr a gwirfoddoli
- Cynnal 1 ffair gwybodaeth gyda 12 o fudiadau yn ymuno
- Rhannu £4000 mewn grantiau drwy'r Panel dan arweiniad pobl ifanc GwirVol
- Hybu 67 cyfleoedd gwirfoddoli ar www.gwirfoddolicymru.net
- Hybu ac annog cyfranogiad cymunedol a dinasyddiaeth gweithredol

*Beth oedd ein heffaith?*
Trefnodd Medrwn Môn i Albert Owen AS a Rhun ap Iorwerth AC wirfoddoli gyda mudiad gwirfoddol neu grwp cymunedol o'u dewis yn ystod Wythnos Gwirfoddoli. Pwrpas hyn oedd codi proffil gwirfoddolwyr a sicrhau fod ein haelodau etholedig yn cael dysgu am brofiadau gwirfoddolwyr o lygad y ffynon. Fe wirfoddolodd Albert Owen yn siop elusennol Hosbis yn y Cartref ac yn y siop elusennol Tenovus ac fe wirfoddolodd Rhun ap Iorwerth yng Nghanolfan Dydd Y Goleudy, gyda Digartref yng Nghaergybi.

Dyma stori un gwirfoddolwr:
"Yn ystod fy amser yn gwirfoddoli yng Nghanolfan Dydd, Y Goleudy, yng Nghaergybi, rwyf wedi gallu helpu pobl sy'n fregus drwy roi cymorth, cefnogaeth a bod yn rhywun i siarad hefo am eu problemau tra maent yn teimlo'n unig. Dros y 6 mis diwethaf, rwyf wedi ennill sgiliau a phrofiadau yn y diwydiant gofal fydd o fudd i mi pan yn dechrau fy nghwrs Nyrsio Oedolion yn y Brifysgol. Rwyf wedi cael cyfle i weithio gyda tim wych o staff, gwirfoddolwyr a gwasanaethau eraill ac wedi bod ar gyrsiau lle dwi wedi dysgu llawer ac wedi ennill cymwysterau.

Yn gyffredinol, mae'r profiad o fod yn wirfoddolwr wedi bod yn gret a buaswn yn awgrymu gwirfoddoli i unrhyw un byddai eisiau cyfrannu i'r gymuned a gwneud ei rhan i helpu. Does yr un teimlad gwell na hyn a dyna un o'r prif resymau pam dwi'n caru gwirfoddoli."

*Canlyniad*:
Pobl a chymunedau'n ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medrwn Môn yn rhedeg Lleisiau Lleol, rhaglen sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae 9 mudiad yn aelodau o'r Portffolio, sydd wedi'i ddylunio i gael pobl i chwarae mwy o ran mewn dylunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau. Yn ogystal mae Lleisiau Lleol yn sicrhau ffyrdd effeithiol i alluogi unigolion a chymunedau i leisio barn a sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed yn ystod cyfnodau cynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus, gan ofalu bod darparwyr gwasanaeth yn cael clywed beth yn union y mae ar y gymuned ei angen. Model 'Adeiladu Cymunedau' sydd wedi'i fabwysiadu i hwyluso'r broses, drwy ddefnyddio'r dulliau ymgynghori gwahanol i greu darlun o holl asedau'r gymuned sy'n amrywio o wasanaethau lleol; adeiladau a llecynnau gwyrdd; pobl, gwybodaeth a sgiliau; i rwydweithiau lleol a gweithgareddau cymunedol.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Rydym wedi gweithio mewn cymunedau i sicrhau eu bod yn chwarae rhan mewn penderfyniadau sy'n eu heffeithio hwy.  Gyda llai o arian cyhoeddus ar gael, rydym wedi mynd ati i ddarganfod beth all cymunedau gyflawni ar eu pen eu hunain, neu hefo buddsoddiad neu gymorth gwasanaethau cyhoeddus a sut maent yn gallu darganfod datrysiadau ar y cyd i ateb anghenion cymunedol.

- Cefnogi a datblygu 4 Hyb Cymunedol
- Cydweithio gyda'r Cyngor Sir ar adnabod  3 model o ymgynghori ac ymgysylltu drwy'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgyngori ar y Cyd
- Cyfrannu tuag at flaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bwydo barn cymunedau drwy'r broses
- Cynnal a hwyluso Panel Dinasyddion Ynys Môn, gyda 67 aelod yn cyfranogi
- Cefnogi Cynghrair Seiriol i weinyddu £20,000 o gyllid datganoledig
- Datblygu safonau 'hawdd ei ddeall' drwy Lleisiau Lleol
- Ymgysylltu gyda dros 2390 o bobl drwy ein prosiect Swyddogion Cynnwys Cymunedau

*Beth oedd ein heffaith?*
Derbyniodd Cynghrair Seiriol £10,000 o gyllid datganoledig gan Gyngor Sir Ynys Môn fel prosiect peilot ac, gyda chyngor a chefnogaeth Medrwn Môn, fe rannwyd rhwng 4 Cyngor Cymuned ar sail eu bod yn ymgysylltu gyda'u cymunedau ar sut bydd yr arian yn cael ei wario.

Cynhaliwyd cyfarfod lle cyflwynwyd syniadau a chytunwyd arnynt gan aelodau'r Gynghrair.  Mae'r cyllid wedi'i wario ar wneud addasiadau i neuaddau bentref, offer chwarae, pabell fawr (marquee) a gweithgareddau dros y Pasg yn yr ardaloedd.  Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r Cynghorau Cymuned gyfrannu arian cyfatebol o'u hadnoddau hwy eu hunain.  Roedd blaenoriaethau gwario hefyd yn cyfateb i fylchau a blaenoriaethau adnabuwyd wrth gasglu gwybodaeth gwaelodlin.

Ar ôl derbyn £10,000 ychwanegol drwy gyllid Gronfa Gofal Canolranol, mae'r Gynghrair wedi sefydlu pwyllgor grantiau bychain i dderbyn ceisiadau gan y gymuned yn unol â'r canllawiau cyllido.  Maent hefyd wedi creu a lansio safle we, a gyda chynllun bws mini cymunedol - yn unol â'r blaenoriaethau a adnabuwyd yn y rowndiau gwreiddiol o ymgynghori.

Mae datganoli £10,000 i fudiadau megis Cynghrair Seiriol yn eu caniatau i gysidro yn union sut y dylai'r arian hynny gael ei wario yn unol â'u blaenoriaethau ac mae wedi, mewn effaith, eu galluogi i fod yn fwy cynaliadwy wrth gyrraedd adnoddau wedi'u targedu ar gyfer y ward.  Canlyniad hyn yw bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r prosiect, aelodau yn ennill sgiliau newydd mewn arwain mudiadau cymunedol a phrofiadau o weithio gyda'i gilydd i ddyrannu cyllid, sgiliau a phrofiadau.

*Canlyniad*:
Mwy o gymunedau'n cael budd o wirfoddolwyr a mwy o fudiadau'n darparu cyfleoedd gwirfoddoli o safon

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medrwn Môn yn gweithio i sicrhau fod cymunedau Môn yn rhai gwydn ac wedi'u grymuso i wneud gwahaniaeth yn lleol drwy ddarparu gwasanaethau lleol dan arweiniad gwirfoddolwyr.
Drwy weithio yn agos gyda'n cymunedau ar lawr gwlad, medrwn gefnogi unigolion i ddod

at ei gilydd i adnabod anghenion lleol ac ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau hynny drwy weithred gwirfoddol a dinesig.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Rydym wedi gweithio mewn cymunedau i sicrhau bod unigolion yn chwarae rhan flaenllaw mewn ymateb i sialensau a chyfleoedd cymunedol drwy wirfoddoli a chyfranogi. Mae nifer o bobl ar draws yr ynys wedi dod at ei gilydd i greu, datblygu a chyd-weithio ar Hybiau Cymunedol, Rhwydweithiau Lleol a grwpiau cymunedol. Mae Medrwn Môn yn gweithio i sicrhau adnoddau cefnogol i unigolion a chymunedau megis Linc Cymunedol Môn, sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i unigolion am wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael gan y trydydd sector a'r prosiect Cydlynu Asedau Lleol, sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd a grwpiau lleol i'w hannog i arwain a datblygu systemau cefnogi hwy eu hunain.

- Sicrhau cyllid i redeg prosiect Cydlynwyr Asedau Lleol mewn 2 dref i hybu cyfranogiad cymunedol
- Cefnogi 4 Hyb Cymunedol newydd
- Datblygu Rhwydweithiau Dementia Gyfeillgar gyda'r nod o fod yn Ynys Dementia Gyfeillgar
- Cynnal Linc Cymunedol Môn, gyda dros 2400 o ymholiadau am wasanaethau trydydd sector
- Datblygu 3 prosiect 'Men's Shed'
- Cynnal 1 ffair gwybodaeth / rhwydweithio i fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr

*Beth oedd ein heffaith?*
Datganolwyd cyllid o'r Gronfa Gofal Canolraddol i Medrwn Môn allu ymgysylltu gyda thrigolion yn Llanfairpwll mewn proses o adnabod yr angen am Hyb Gymunedol yn yr ardal. Wrth ddefnyddio model 'Adeiladu Cymunedau' a ddatblygwyd drwy ein prosiect Lleisiau Lleol, fe wnaeth Medrwn Môn gynnal nifer o sesiynau mapio yn yr ardal yn ogystal â digwyddiadau agored a sesiynau grwp ffocws. Roedd y dystiolaeth yn dangos mai'r Neuadd Goffa yn Llanfairpwll byddai'r lleoliad gorau ac mae prosiect Lleisiau Lleol wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Cymuned a thrigolion eraill ar adnabod sut all y cyllid cyfalaf gael ei wario. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ar ddechrau'r Haf ac mae'r gweithgareddau a adnabuwyd yn ystod y broses ymgynghori yn awr ar gael drwy Hyb Cymunedol Llanfairpwll, ar ei newydd wedd, ers i'r Hyb gael ei lansio yn Nhachwedd 2016.

Mae 2 hyb ychwanegol yn derbyn cymorth Medrwn Môn erbyn hyn - un ym Mryngwran a'r llall yn Llanfaelog. Mae'r ddau hyb yma wedi gweithio gyda Lleisiau Lleol i greu ffordd o ddal gwybodaeth am asedau lleol a hefyd am wybodaeth am beth mae pobl leol yn teimlo yr oeddynt eu hangen yn yr hybiau.

Mae'r hyb ym Mryngwran am gael ei leoli yn Nhafarn y pentref, sef y Iorwerth Arms, sydd, ers 2015, yn berchnogaeth y gymuned. Dywedodd Neville Evans, Cadeirydd Bryngwran Cymunedol:

*"Rydym wedi colli'r siopau i gyd ac, heblaw am yr ysgol, bydda colli'r dafarn yn golygu byddai dim byd ar ôl, mae gennym ni weledigaeth gyffrous i'r dyfodol ac rydym eisiau agor y drysau i bob aelod o'r gymuned. Rydym yn barod wedi agor y drysau i bobl hyn y pentref ac yn gobeithio ehangu hyn yn y dyfodol".*

Bydd yr hybiau cymunedol yn cael eu defnyddio i greu mwy o gyfleoedd i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau bydd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a chynyddu llesiant drwy ddod a gwasanaethau lleol i'r ardaloedd. Mae'n gyfle i bobl ddod i gymdeithasu a bod yn fwy

annibynnol a gwydn drwy adnabod gweithgareddau a gwasanaethau yr hoffent hwy ei weld ar gael yn yr hybiau.

Talwyd y cyllid i grwpiau trydydd sector a chynghorau cymuned a bydd yn cael ei ddefnyddio i annog cynaladwyedd a chynyddu'r defnydd o adeiladau lleol fel lleoliadau i ddod a'r gymuned at ei gilydd.

**Trydydd sector hyfyw a chynaliadwy**
*Canlyniad*:
Ymddiriedolwyr hyderus o ran arwain eu mudiadau a chynnal safonau uchel o lywodraethu

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medwn Môn yn cynnig ystod eang o wasanaethau i gefnogi ymddiriedolwyr i lywodraethu eu grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn effeithiol yn ogystal â'u cynorthwyo hwy i symud tuag at fod yn gynaliadwy a chreu ffynhonellau incwm newydd.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Rydym wedi gweithio gyda grwpiau newydd a grwpiau wedi'u sefydlu i'w cefnogi gyda'u hymholiadau am lywodraethu a threfniadaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei deilwra i gefnogi grwpiau i ddatblygu ymarferion cadarn a gweithredu'n fwy effeithiol.

Rydym wedi cefnogi grwpiau ar faterion o gychwyn grwp i gau grwp i lawr, i gydymffurfiad, rheoli cyllid, cefnogaeth adnoddau dynol, canlyniadau, monitro effaith a systemau ansawdd.

Drwy hyn oll, mae gwasanaeth datblygu Medrwn Môn yn helpu grwpiau lleol i ateb y galw a hwyluso gwelliant i ddarpariaeth gwasanaeth.

- Ymateb i 8 ymholiad gan ymddiriedolwyr ynglyn â materion llywodraethu
  Cynnal 2 digwyddiad ymddiriedolwyr gyda 74 yn mynychu
- Cefnogi 1 Cynghrair Cymunedol i sefydlu, gan roi cyngor ar dyrannu grantiau cymunedol a materion llywodraethol

*Beth oedd ein heffaith?*
Derbyniodd Medrwn Môn ymholiad gan Banc Bwyd Ynys Môn, Pantri No. 6, yn dilyn ail-drefnu'r pwyllgor - roedd y gwirfoddolwyr newydd yn awyddus i ddechrau o'r newydd a rhoddwyd cyngor ar lywodraethu, strwythur a ffurf mudiad newydd. Fe sefydlodd y grŵp fel Cwmni Cyfyngedig gan Warant gyda chyngor pellach yn cael ei gynnig am recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, gydag awgrym i gysylltu â chlwb ieuenctid lleol a'r ysgol uwchradd. Roedd y grŵp hefyd yn chwilio am arweiniad am gyllid a gyda chymorth gan Medrwn Môn, fe lwyddodd y grŵp i sicrhau £5,000 oddi wrth Arian i Bawb Cymru. Fel un o 4 Banc Bwyd ar yr ynys, fe wnaeth Medrwn Môn annog Pantri No. 6 i wneud cysylltiad gyda'r banciau bwyd eraill i ddysgu a rhannu profiadau.

Fe roddodd Medrwn Môn cefnogaeth bellach i Pantri No. 6 pan wnaeth y grŵp sylweddoli fod eu hadeilad cyfredol yn ddrud i'w rhentu (£5,000 y flwyddyn) ac yn anaddas i redeg eu prosiect - fe wnaed cysylltiad hefo Medrwn Môn ac fe drefnwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Tref; roedd adeilad cyfagos i Siambr y Cyngor ar gael ar ddydd Mercher am ffi o £10.00 gan gynnwys gwres / trydan a.y.b.

Mae cyd-weithio gyda'r Cyngor Tref a gweithredu o ofod llai a fwy pwrpasol yn galluogi Pantri No.6 i ffocysu ar eu prosiect a'r tasgau pwysig o ymestyn oriau agor, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a marchnata yn hytrach na rhoi eu hymdrech i gyd i mewn i

ymgeisio am grantiau cyfalaf i wella adeilad yr oeddynt yn ei rhentu. Mae’r symud i adeilad newydd hefyd wedi’u hysgogi i ffocysu ar gyflwyno datganiadau i’r wasg a chodi ymwybyddiaeth o’r prosiect cymdeithasol sy’n gwasanaethu’r gymuned yn nalgylch Amlwch, tref wledig yng Ngogledd Môn.

Gyda chefnogaeth gychwynnol, mae’r fenter gymdeithasol angenrheidiol yma yn gallu parhau, cyfnerthu a datblygu i ddenu gwirfoddolwyr, diogelu’r gwirfoddolwyr cyfredol a pharhau i rannu parseli bwyd ar fwy nag un diwrnod yr wythnos a gwasanaethu’r gymuned yn nalgylch Amlwch.

*Canlyniad:*
Trydydd sector sydd â'r wybodaeth a sgiliau i alluogi mudiadau i weithredu'n gynaliadwy

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medwn Môn yn cynnig ystod eang o wasanaethau i gefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol ym Môn drwy ddarparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth; cyngor cyllido; hyfforddiant a chyrsiau i sicrhau bod y trydydd sector gyda'r sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i alluogi iddynt weithredu'n gynaliadwy. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau ymarferol i grwpiau a mudiadau.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Darperir gwybodaeth gyfredol drwy ein cylchlythyr Dan Do Môn. Cynhyrchwyd 4 cylchlythyr yn ystod 2016-17 a dosbarthwyd i dros 882 o fudiadau. Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar-lein i ledaenu negeseuon am ein gwaith. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth i'r sector, gyda thaflenni gwybodaeth ar lywodraethu, cyllido, codi arian, tendro, grantiau a benthyciadau, cynhyrchu incwm a dogfennau llywodraethu. Rydym wedi darparu hyfforddiant ar bynciau megis Diogelu Plant a Phobl Ifanc a Goruchwyliaeth a Chefnogaeth. Eto eleni bu staff Medrwn Môn yn paratoi a rhannu pabell gyda mudiadau a grwpiau yn Sioe Môn.

Mae'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn codi capasiti staff a gwirfoddolwyr i allu rhedeg eu mudiadau a grwpiau yn fwy saff a chyfrifol a'u galluogi i gefnogi pobl yn eu cymunedau.

- Cynnal 10 sesiwn hyfforddiant gyda 111 o gyfranogwyr
- Adborth gan gyfranogwyr yn nodi bod 100% yn ystyried ein sesiynau hyfforddiant yn ardderchog neu'n dda iawn
- 5400 o sesiynau ymwelwyr i'r safle we
- Darparu 4 rhifyn o Dan Do Môn
- Darparu gwasanaethau ymarferol 189 o weithiau
- Codi ymwybyddiaeth 2 ddeddf newydd
- Paratoi pecyn cymorth ar gyfranogi
- 9 mudiad/grwp yn rhannu pabell Sioe Môn
- Cynnal 5 cymhorthfa cyllido gyda 80 o gyfranogwyr

*Beth oedd ein heffaith?*
Mae grwpiau cymunedol yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae cael pobl yn dod at ei gilydd i ffurfio grŵp yn helpu i wella cymuned, mae'n hybu cynhwysiant cymdeithasol ac yn cynyddu'r niferoedd o bobl sy'n chwarae rhan uniongyrchol yn eu cymuned. I alluogi'r grwpiau cymunedol yma ffynnu, mae'n hanfodol bod yr adnoddau (ariannol ac eraill) ganddynt i gynnal eu gwasanaethau a gweithgareddau.
Mae Medrwn Môn yn trefnu a chynnal nifer o gymorthfeydd cyllido ac mae'n gyfle i grwpiau a mudiadau gael sgwrs a thrafodaeth ynglŷn â phrosiectau posibl a cheisiadau cyllid arfaethedig gyda chyllidwyr. Manteision y cymorthfeydd hyn yw eu bod yn caniatáu

trafodaeth fanwl gyda'r grŵp am y prosiect arfaethedig, gan siarad drwy'r ffrydiau ariannu posibl a'r math o wybodaeth y byddai ei hangen, gan gynnwys costau/cyllideb, edrych ar sut mae'r grŵp wedi'i sefydlu a ph'un a oes ganddynt bolisïau priodol yn eu lle.

Ymhlith y cyllidwyr sy'n mynychu cymorthfeydd cyllido a drefnir gan Medrwn Môn, mae:

Y Gronfa Loteri Fawr
Sefydliad Lloyds TSB
Plant Mewn Angen y BBC
WCVA

Un o lwyddiannau mwyaf cymorthfeydd cyllido Medrwn Môn eleni yw Parc Sglefrio Llangefni, sydd wedi sicrhau cyllid o £370,000 gan y Gronfa Loteri Fawr ar ôl i gynrychiolwyr y grŵp fynychu Cymhorthfa Cyllido yng Nghanolfan Ebeneser yn Llangefni, wedi iddynt dderbyn cyngor gan Medrwn Môn i geisio am gyllid Y Gronfa Loteri Fawr. Maent eisoes wedi sicrhau £37,000 o gyllid gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn tuag at y prosiect ac rydym wedi eu cynorthwyo ymhellach gyda pholisïau a threfnu hyfforddiant Diogelu Plant.

*Canlyniad*:
Mudiadau sy'n sicrhau'r adnoddau a chreu gwasanaethau newydd angenrheidiol i oroesi a thyfu

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medrwn Môn yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu rhwydwaith gefnogol o wasanaethau i grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol a bod y grwpiau a mudiadau hynny yn ffynnu ac yn cael defnydd.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Drwy sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o'r gwasanaethau mae'r trydydd sector yn ei ddarparu i unigolion ar draws yr ynys, rydym yn gallu cyfeirio ac annog defnydd o'r gwasanaethau trydydd sector yma. Os oes bylchau mewn darpariaeth, byddem yn amlygu hyn i wasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt gysidro comisiynu darnau penodol o waith gan y trydydd sector.

Mae Linc Cymunedol Môn yn gallu hyrwyddo gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol.

- Ymateb i dros 2400 o ymholiadau Linc Cymunedol Môn
- Cynnal peilot gwasanaeth Daisy
- Datblygu 3 Rhwydwaith Dementia lleol
- Cychwyn 'Men's Shed' yn Llangefni
- Ymateb i 45 ymholiad cyllido
- Llwyddo i ddenu £563,150 o fuddsoddiad newydd i weithred lleol, cyfleusterau a gwasanaethau
- Sicrhau buddsoddiad o £50,000 i ddatblygu hubiau cymunedol
- Hybu gwasanaethau trydydd sector gyda Clwstwr Meddygon Môn a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill

*Beth oedd ein heffaith?*
Yn ystod 2016-17 fe dderbyniodd Linc Cymunedol Môn dros 2400 o ymholiadau. Mae Linc Cymunedol Môn yn gweithredu fel Un Pwynt Mynediad ar gyfer pobl Ynys Môn i gael gwybodaeth am fudiadau trydydd sector sy'n gallu darparu cymorth a gwybodaeth i fynd i'r afael â'u hanghenion lefel is.

Mae Linc Cymunedol yn derbyn cyswllt uniongyrchol gan unigolion, ond hefyd yn derbyn cyfeiriadau gan y Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yn ogystal ag eraill, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Mae nifer y cyfeiriadau uniongyrchol a'r galwadau i Linc Cymunedol Môn wedi cynyddu ac mae gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau lleol yn cynyddu. Mae Swyddog Datblygu'r Linc yn gweithio gyda phrosiect Lleisiau Lleol i fapio gwasanaethau yn ogystal â'r tîm Cydlynu Asedau Lleol, sy'n gweithio ar lawr gwlad i roi cymorth i unigolion wneud cysylltiadau a'u cymuned a rhoi gwybod iddynt am weithgareddau cymunedol neu wasanaethau gwirfoddol all fod o gymorth iddynt.

Drwy weithio gyda North Wales Deaf Awareness, drwy'r prosiect Lleisiau Lleol daeth i'r amlwg bod nifer o bobl yn ein cymunedau methu defnyddio gwasanaethau gan eu bod yn defnyddio ffôn neu e-bost i gysylltu a golyga hyn fod pobl fyddar neu gyda phroblem clyw yn gorfod dibynnu ar berson arall i gysylltu ar ei rhan. Fe gynhaliwyd peilot o'r enw DAISY – 'Digital Access Interpreting System for Anglesey' am gyfnod o 6 mis ac roedd unigolion yn gallu cysylltu hefo Linc Cymunedol Môn drwy Skype dros o we ac yn gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

**Ymgysylltu effeithiol mewn polisi**
*Canlyniad*:
Sector sy'n cyfrannu'n effeithiol i bolisiau ar bob lefel

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae sicrhau bod llais trydydd sector Ynys Môn yn cael ei glywed ac y rhoir clust iddo yn un o nodau allweddol Medrwn Môn. Mae rhannu llais y sector yn rhoi llais cryfach i gymundau gan herio a dylanwadu sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Mae gan fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol rôl hanfodol mewn mynd i'r afael ag anghenion lleol cymunedau. Maent yn gallu cynrychioli llais y gymuned maent yn gwasanaethu, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hymyleiddio.

Gyda chymorth gan Medrwn Môn, mae mudiadau a grwpiau wedi casglu safbwyntiau a phrofiadau unigolion sy'n derbyn neu'n defnyddio'u gwasanaethau ac wedi cyfrannu tuag at gyd-gynllunio neu wella gwasanaethau cyhoeddus. Maent hefyd wedi gallu darparu gwybodaeth leol amrywiol, gwerthfawr.

Fel Cyngor Gwirfoddol Sirol, mae Medrwn Môn yn darparu platfform i'r sector gyfleu negeseuon drwy ein rhwydweithiau a pherthnasau gyda chyrff cyhoeddus megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd. Yn ogystal mae Medrwn Môn wedi bod yn ffynhonnell ddata a gwybodaeth ynddo'i hun.

10 o grwpiau cynllunio/gweithgorau strategol sy'n cynnwys aelodau'r trydydd sector
8 fforwm neu rwydwaith trydydd sector sy'n cael cymorth

*Beth oedd ein heffaith?*
Dros y blynyddoedd diwethaf bu Medrwn Môn a Lleisiau Lleol yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ynys Môn drwy Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol i ddatblygu Cytundeb Compact Ynys Môn, sef cytundeb partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Trydydd Sector yn Ynys Môn. Yn ogystal, bu datblygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (Cod Cyllido), sy'n nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer trefniadau ariannu gyda'r Trydydd Sector.

Yn ystod 2016-17, wedi i'r Cyngor Sir ymgynghori ar eu Cyllideb ar gyfer 2017-18, fe ymgymerodd Medrwn Môn arolwg i weld os oedd y trydydd sector wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor Sir, os oeddynt yn ymwybodol o'r Cod Cyllido a sut oedd yn gweithio a.y.y.b. Roedd y canlyniadau yn dangos fod nifer o faterion allweddol i weithio ar gyda'r Cyngor Sir, gan gynnwys trefniadau paratoi dogfennau tendro, codi ymwybyddiaeth staff y Cyngor, codi ymwybyddiaeth o fewn y trydydd sector a annog y trydydd sector i ymgysylltu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Mae Medrwn Môn wedi pwyso ar y Cyngor Sir, drwy'r Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, i sicrhau fod egwyddorion y Cod Cyllido yn cael eu mabwysiadu a'u gweithredu. I gefnogi'r achos fe ddefnyddiodd Medrwn Môn ymatebion a chanlyniadau'r holiadur y trydydd sector fel tystiolaeth pan yn cyflwyno'r darganfyddiadau i'r Pwyllgor Cyswllt. Gofynwyd i'r Cyngor Sir ystyried y darganfyddiadau wrth gynllunio i ymgynghori ar Gyllideb 2017-18. Penderfynwyd creu Cynllun Gwaith i sicrhau bod negeseuon o fewn y Compact a'r Cod Cyllido yn cael eu rhannu.

*Canlyniad*:
Y sector yn cael ei gydnabod fel llwybr hanfodol i gyfranogiad ac ymgysylltu, gan gynnwys gyda grwpiau lleiafrifol a rhai dan anfantais

*Beth rydym yn ei wneud?*
I alluogi ein cymunedau i fod yn wydn ac wedi'u grymuso, mae'n angenrheidiol i'r bobl fod yn frwdfrydig ac yn ymgysylltu mewn cynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus ac yn hyderus bod eu Llais yn cael ei glywed. Mae Medrwn Môn yn chware rôl bwysig mewn hwyluso prosesau i unigolion a chymunedau adnabod anghenion neu bryderon gwir ac, o bosib, cuddiedig, i leisio barn ac i ddylanwadu ar wasanaethau lleol a strategaeth yn effeithiol. Mae'r annibyniaeth yma - o bwrpas, llais a gweithred - yn allweddol i bwrpas Medrwn Môn. Mae'n galluogi Medrwn Môn i gynrychioli'r materion sy'n bwysig i'r rhai sydd â diffyg dylanwad a phŵer. I lwyddo i wneud hyn, mae'n rhaid i Medrwn Môn fod yn (a chynnal bod) yn annibynnol. Ni ddylai Gwasanaethau Cyhoeddus orchymyn blaenoriaethau, distewi negeseuon, neu rwystro Medrwn Môn rhag gwneud ein gwaith mewn unrhyw ffordd.

*Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?*
Lle bo'r sector gwirfoddol a chymunedol gyda chynrychiolaeth ar Fyrddau a Phartneriaethau, mae'n ymarfer da i hyn gael ei gefnogi gan strwythurau ar gyfer ymgysylltu ac adborth gan y sector ehangach. Mae Medrwn Môn yn gweinyddu fforymau a rhwydweithiau i ddarparu'r ymgysylltiad ac adborth; er enghraifft, bu cyfarfod o'r Rhwydwaith Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles yn trafod y sgwrs "Beth sy'n bwysig?" a'r pwysigrwydd o gynnwys y trydydd sector yn yr ymarfer a rhoddwyd adborth i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ei ymgyrch cenedlaethol #bethsy'nbwysigichi. Ein gwaith mwyaf dylanwadol eleni, fodd bynnag, yw'r gwaith o ddatblygu Panel Dinasyddion Ynys Môn a Chyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni).

- 67 aelod o Banel Dinasyddion Ynys Môn
- Ymatebodd aelodau'r panel i 30 ymgynghoriad

*Beth oedd ein heffaith?*
Mae Medrwn Môn yn gweinyddu Panel Dinasyddion Ynys Môn ac mae Cyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni) yn aelod o bortffolio ein prosiect Lleisiau Lleol; mae'r ddau brosiect yma (sy'n deillio o brosiect Lleisiau Lleol) yn rhoi cyfle uniongyrchol i unigolion leisio barn ar wasanaethau cyhoeddus, drwy Medrwn Môn.

Fel Cyngor Gwirfoddol Sirol, mae Medrwn Môn wedi darparu platfform i unigolion a'r sector gyfleu negeseuon drwy ein rhwydweithiau a pherthnasau gyda chyrff cyhoeddus megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd. Yn ogystal mae Medrwn Môn yn ffynhonnell ddata a gwybodaeth ynddo'i hun.

Pwrpas Panel Dinasyddion Ynys Môn yw bod yn llais i gymuned ehangach Ynys Môn ar gyfer unrhyw berson dros 16 oed sy'n byw ar Ynys Môn i rannu barn am wasanaethau cyhoeddus. Mae aelodau o'r panel yn cael dewis pynciau sydd o ddiddordeb iddynt o bynciau fel Hamdden, Swyddi i Iechyd. Mae aelodau'n dewis sut yr hoffem gymryd rhan ac mae Medrwn Môn yn rhoi gwybod i aelodau'r panel sut maent yn gwneud gwahaniaeth drwy roi adborth rheolaidd. Mae 67 o aelodau gweithredol ar y panel ac maent wedi cael dweud eu dweud mewn 30 ymgynghoriad yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau yn cynnwys cyllidebau a blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Thipio Anghyfreithlon ac wedi cymryd rhan mewn 3 digwyddiad ymgynghori. Mae aelodau hefyd wedi dweud wrthym ba mor hawdd oedd hi i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau 42 o weithiau.

*Canlyniad*:
Sector sy'n chwarae rôl effeithiol mewn cynllunio, cyflenwi a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus

*Beth rydym yn ei wneud?*
Mae Medrwn Môn yn rhedeg rhaglen Lleisiau Lleol sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae 9 mudiad yn aelodau o'r Portffolio, sydd wedi'i ddylunio i gael pobl i chwarae mwy o ran mewn dylunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau. Yn ogystal mae Lleisiau Lleol yn sicrhau ffyrdd effeithiol i alluogi unigolion a chymunedau i leisio barn a sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed yn ystod cyfnodau cynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus, gan ofalu bod darparwyr gwasanaeth yn cael clywed beth yn union y mae ar y gymuned ei angen. Mae Cyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni) yn un o 9 aelod o bortffolio Lleisiau Lleol.

*Beth wnaethom ni gyflawni yn 2016-17?*
Mae Llais Ni Ynys Môn yn deillio o'r prosiect Lleisiau Lleol, a ariannwyd gan y Loteri Fawr am 4 mlynedd.

Pwrpas Cyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni) yw sicrhau bod llais pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn cael ei glywed a'i gyfleu yn yr un modd a'r Panel Dinasyddion. Mae 31 o aelodau gweithredol.

- 31 aelod o Llais Ni
- 1 o 9 aelod o Portffolio Lleisiau Lleol

*Beth oedd ein heffaith?*
Yn ystod 2016-17 fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn redeg peilot, mewn partneriaeth â Llais Ni, i sefydlu ffordd o weithio sy'n galluogi mewnbwn gan bobl ifanc ac sy'n ychwanegu gwerth i graffu.

Fe edrychodd y peilot yn benodol ar y broses o osod Cyllideb y Cyngor Sir ar gyfer 2017/18 a rhoi prawf i weld sut i wella ymgysylltiad pobl ifanc mewn prosesau democrataidd. Roedd yn archwilio sut i ddatblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r broses o symud thema o ymgynghoriad i graffu gan Aelodau. Fe gaeth y peilot yma ei amlygu yn

| |
|---|
| genedlaethol fel model o ymarfer da gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Fe wnaeth aelodau o Llais Ni greu hanes wrth fod y grŵp o bobl ifanc cyntaf i fynychu Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, ym mis Chwefror 2017. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| - |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Medrwn Môn- Adroddiad Blynyddol  2016-2017 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| - |

# MEDRWN MÔN

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2016-17




**Cefnogi unigolion, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ar Ynys Môn**

# Medrwn Môn

Cynnwys: Tudalen:


Cyflwyniad:

| | |
|---|---|
| Cyllid a Chyllidwyr | 2 |
| Adroddiad y Cadeirydd | 3 |
| Ynglyn â Medrwn Môn | 4-5 |

Ein gwaith:

| | |
|---|---|
| Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol | 6-8 |
| Trydydd sector hyfyw a chynaliadwy | 9-11 |
| Ymgysylltu effeithiol mewn polisi | 12-14 |
| Dangosyddion Perfformiad | 15 |
| Uchafbwyntiau'r flwyddyn mewn lluniau | 16 |



**CYDNABYDDIAETH:**

**Rydym yn ddiolchgar i'n harianwyr, heb eu cefnogaeth hwy, ni fyddai ein gwaith i gefnogi a datblygu gweithgarwch gwirfoddol lleol yn bosibl:**

**Llywodraeth Cymru; Cronfa Loteri Fawr; Cyngor Sir Ynys Môn; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.**


**Incwm a Gwariant 2016-17:**

**Incwm:**

**£795,905**

**Gwariant:**

**£533,365**

# Adroddiad y Cadeirydd

## Cefnogi unigolion, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ar Ynys Môn


Cadeirydd:
Islwyn Humphreys

Prif Swyddog:
John R Jones
Sian Purcell

Neuadd y Dref
Sgwâr Bulkeley
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7LR


Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan llawn a blaenllaw i ddatblygu potential yr ynys.

Dyma hi eto yn ddiwedd blwyddyn arnom - blwyddyn sydd wedi bod yn eithaf heriol.
Ar ddechrau'r flwyddyn, roeddem yn bryderus beth fyddai effaith uniad posib o'r Cynghorau Sirol ar draws y Gogledd ond fe ddaeth chwa o awyr iach pan gyhoeddwyd nad oedd uno i gymeryd lle, wedi i Lywodraeth Cymru newid cyfeiriad
- gwasanaeth leol i bobl a chymunedau lleol sy'n holl bwysig.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd Mrs Sian Purcell yn cymeryd trosodd awenau Medrwn Môn fel Prif Swyddog. Eisioes mae hi yn gweithredu yn gadarn ac effeithiol iawn. Wrth gwrs, fe ffarweliwyd â'i rhagflaenydd, Mr John R Jones, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr a helaeth i'r Bwrdd ac i waith Medrwn Môn.

Fel y flwyddyn flaenorol, fe welwyd toriadau ariannol pellach. Er hyn, rhaid canmol y staff am ymateb yn bositif a chyflawni prosiectau gyda graean a gwên. Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i bob aelod o'r gweithlu am eu hymroddiad i waith ac amcan Medrwn Môn – hir y parhao.

Mae'r sector yn parhau i wynebu heriau ond hefyd yn wynebu cyfleoedd - daeth dwy ddeddf bwysig iawn i rym sy'n cyfleu pwysigrwydd y trydydd sector, o weithred gwirfoddol ar lawr gwlad i ddylanwadu ar bolisiau cenedlaethol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Parhawn i weithio'n agos gyda'r Rhwydwaith o Gynghorau Sirol Gwirfoddol ar draws Cymru drwy ein Cytundeb Partneriaeth 'Cefnogi Trydydd Sector Cymru', mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a WCVA.

Gan y byddaf, dan reolau sefydlog y Bwrdd, yn sefyll i lawr fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch yn ddiffuant am yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd y Bwrdd Rheoli. Rwyf wedi mwynhau cydweithio â staff ac aelodau hynod o ymroddgar. Dymunaf yn dda i fy olynydd.

Islwyn Humphreys
Cadeirydd



**Wendy Flynn**
Gyda thristwch mawr bu i Wendy Flynn, Gweinyddwr Medrwn Môn, farw yn ystod 2016, yn heddychlon a gyda'i theulu.
Bydd ymrwymiad a chyfraniad Wendy i Medrwn Môn a'r Sector Gwirfoddol yn cael ei gofio'n annwyl a bydd ei phresenoldeb yn cael ei golli'n fawr.

# Medrwn Môn

**Mae Medrwn Môn yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth o blith mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol. Mae'n rhan o rwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n weithredol ledled Cymru. Daw'r cyllid tuag at ein gwaith craidd o Lywodraeth Cymru drwy'r WCVA. Mae Medrwn Môn yn rhedeg prosiectau eraill hefyd, sy'n cefnogi ein gwaith craidd.**

**<u>Ein Datganiad o Fwriad</u>**

Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potensial yr ynys.

**<u>Ein Nodau</u>**

- **Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol**

Pobl yn gallu gwirfoddoli gyda chynnydd o ran gallu a brwdfrydedd
Mudiadau a grwpiau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr yn gallu recriwtio, cadw a rheoli gwirfoddolwyr yn well

- **Sector gwirfoddol hyfyw a chynaliadwy**

Mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda ac yn cyflenwi canlyniadau o safon

- **Ymgysylltu effeithiol mewn polisi**

Mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac unigolion wedi'u cysylltu'n well ac yn gallu dylanwadu a chyfrannu at bolisi cyhoeddus.

**<u>Ein gweithgareddau</u>**

Galluogi unigolion i fod yn rhan o'u cymunedau, a bod yn weithredol ynddynt drwy eu hysbysu a'u cyfeirio at ystod eang o gyfleoedd i wirfoddoli a chyfranogi.

Cefnogi mudiadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr i ragori wrth recriwtio, cadw a rheoli eu gwirfoddolwyr, yn ogystal â datblygu a hyrwyddo eu cyfleoedd i wirfoddoli.

Cefnogi ymddiriedolwyr i ragori yn y gwaith o lywodraethu eu mudiadau ac i'r mudiadau hynny fod yn hyfyw a chynaliadwy.

Cefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol i allu cyflenwi canlyniadau o safon, drwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth.

Sicrhau bod mudiadau gwirfoddol yn gallu ymgysylltu a chyfrannu'n effeithiol i bolisi cyhoeddus a'u cynrychioli yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Cymorth i bobl a chymunedau ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyrff cyhoeddus.

Yn 2016 roedd Medrwn Môn yn dathlu penblwydd 15 o flynyddoedd! Fe wnaethom ddathlu'r achlysur yn y ffordd mwyaf priodol - sef dathlu gwirfoddolwyr Ynys Môn yn ystod Wythnos Gwirfoddoli!



# Medrwn Môn

**Aelodau'r Bwrdd Rheoli**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | |
| Islwyn Humphreys | Samariaid Gogledd Orllewin Cymru |
| Is-Gadeirydd: | |
| Andrew Mark Hughes | Malltraeth Ymlaen |
| Trysorydd: | |
| Elfyn Hughes | Neuadd Bentref Penysarn |
| Eileen M Clarke | Ynys Môn (Anglesey) Group Riding RDA |
| William Hadfield | Cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch |
| Lyn Môn Owen Hughes | Barnardos |
| John Wyn Jones | Ynys Môn Access (hyd at Tachwedd 2016) |
| Dr Morag McGrath | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig CPRW |
| Dr W H Roberts | Cymunedau'n Gyntaf Môn |
| Yvonne Tatam | Sefydliad y Merched (hyd at Gorffennaf 2016) |
| Selwyn Williams | Canolfan Cynghori Ynys Môn |

| | |
|---|---|
| Cyfetholedig | |
| Aled Griffiths | Hawliau Lles Anabledd |
| Dilys Shaw | Tai Chi Llangefni |

**Aelodau'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol**

| | |
|---|---|
| Islwyn Humphreys | Samariaid Gogledd Orllewin Cymru |
| Elfyn Hughes | Neuadd Bentref Penysarn |
| Andrew Mark Hughes | Malltraeth Ymlaen |
| Morag McGrath | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig CPRW |
| Selwyn Williams | Canolfan Cynghori Ynys Môn (hyd at Ebrill 2016) |

**Aelodau Staff Medrwn Môn**

| | |
|---|---|
| John R Jones | Prif Swyddog ar y cyd (hyd at Awst 2016) |
| Sian C Purcell | Prif Swyddog ar y cyd (hyd at Awst 2016), Prif Swyddog (o Fedi 2016) |
| Wendy Flynn | Gweinyddwr (hyd at Mai 2016) |
| Derlwyn R Hughes | Swyddog Datblygu Gwybodaeth a Hyfforddiant |
| Linda Jones | Swyddog Gweinyddol |
| Rhian Medi | Swyddog Cyswllt Canolfan Wirfoddoli |
| Bethan Jukes | Swyddog Datblygu Gwirfoddoli / Swyddog Panel Dinasyddion Lleisiau Lleol |
| G Lon Moseley | Swyddog Linc Cymunedol Môn |
| Lyndsey Campbell Williams | Rheolwr Prosiect Lleisiau Lleol |
| Rachel Argyle | Swyddog Ymgysylltu Panel Dinasyddion Lleisiau Lleol (hyd at Fehefin 2016) |
| Catrin Ruth Hampton | Swyddog Cefnogi Prosiect Linc Cymunedol Môn (o Fedi 2016) |
| Katharine Harper Williams | Swyddog Cysylltu Cymunedau |
| Sheree Ellingworth | Cydlynydd Ardal Leol (o Ragfyr 2016) |
| Rhian Thomas | Swyddog Presgribio Cymdeithasol (o Fawrth 2017) |

# Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol









**Lluniau uwch (ch-dd): Criw Tyddyn Môn gyda Rhun ap Iowerth AC; staff Medrwn Môn yn trafod gwirfoddoli gyda Môn FM; Lluniau gwaelod (ch-dd): Albert Owen AS yn siop elusennol Hosbis yn y Cartref yn ystod Wythnos Gwirfoddoli; Gwirfoddolwyr Age Cymru Gwynedd a Môn yn derbyn tystysgrifau Wythnos Gwirfoddoli.**
**Isod: Rhun ap Iorwerth AC gyda chriw Goleudy, Caergybi yn ystod Wythnos Gwirfoddoli.**

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

## Canlyniad:
## Mwy o bobl ym Môn yn cael budd o ymwneud â gwirfoddoli

**Beth rydym yn ei wneud?**
Mae Medrwn Môn yn cefnogi unigolion o bob oed i wirfoddoli drwy hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli, cyfeirio unigolion at fudiadau a'u cynorthwyo drwy'r broses recriwtio a chefnogi pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
Rydym yn gweithio i sicrhau bod mwy o bobl yn Ynys Môn yn cael budd o ymwneud â gwirfoddoli ac yn dathlu cyfraniad gwirfoddolwyr i wasanaethau cyhoeddus a bywyd dinesig ym Môn.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan fwyfwy pwysig a dynamig yn eu cymunedau ac mae Medrwn Môn yn hyrwyddo, cefnogi a datblygu pob math o wirfoddoli, gwirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol ar lefel leol, gan gydnabod bod eu cyfraniad unigryw yn rhoi manteision i'r rhai sy'n defnyddio/derbyn y gwasanaeth, cymunedau lleol a'r gwirfoddolwyr hwy eu hunain.

- Lleoli 13 o wirfoddolwyr
- Cynnal 1 digwyddiad i ddathlu gwirfoddolwyr a gwirfoddoli
- Cynnal 1 ffair gwybodaeth gyda 12 o fudiadau yn ymuno
- Rhannu £4000 mewn grantiau drwy'r Panel dan arweiniad pobl ifanc GwirVol
- Hybu 67 cyfleoedd gwirfoddoli ar www.gwirfoddolicymru.net
- Hybu ac annog cyfranogiad cymunedol a dinasyddiaeth gweithredol

**Beth oedd ein heffaith?**
Trefnodd Medrwn Môn i Albert Owen AS a Rhun ap Iorwerth AC wirfoddoli gyda mudiad gwirfoddol neu grwp cymunedol o'u dewis yn ystod Wythnos Gwirfoddoli. Pwrpas hyn oedd codi proffil gwirfoddolwyr a sicrhau fod ein haelodau etholedig yn cael dysgu am brofiadau gwirfoddolwyr o lygad y ffynon. Fe wirfoddolodd Albert Owen yn siop elusennol Hosbis yn y Cartref ac yn y siop elusennol Tenovus ac fe wirfoddolodd Rhun ap Iorwerth yng Nghanolfan Dydd Y Goleudy, gyda Digartref yng Nghaergybi.

Dyma stori un gwirfoddolwr:
"Yn ystod fy amser yn gwirfoddoli yng Nghanolfan Dydd, Y Goleudy, yng Nghaergybi, rwyf wedi gallu helpu pobl sy'n fregus drwy roi cymorth, cefnogaeth a bod yn rhywun i siarad hefo am eu problemau tra maent yn teimlo'n unig. Dros y 6 mis diwethaf, rwyf wedi ennill sgiliau a phrofiadau yn y diwydiant gofal fydd o fudd i mi pan yn dechrau fy nghwrs Nyrsio Oedolion yn y Brifysgol. Rwyf wedi cael cyfle i weithio gyda tim wych o staff, gwirfoddolwyr a gwasanaethau eraill ac wedi bod ar gyrsiau lle dwi wedi dysgu llawer ac wedi ennill cymwysterau.

Yn gyffredinol, mae'r profiad o fod yn wirfoddolwr wedi bod yn gret a buaswn yn awgrymu gwirfoddoli i unrhyw un byddai eisiau cyfrannu i'r gymuned a gwneud ei rhan i helpu. Does yr un teimlad gwell na hyn a dyna un o'r prif resymau pam dwi'n caru gwirfoddoli."



# Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol







Lluniau (ch-dd) Panel Cynghrair Seiriol; enghraifft o fapio; Fforwm Pobl Hyn

## Canlyniad: Pobl a chymunedau'n ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus

gwrandwch listen

**Beth rydym yn ei wneud?**
Mae Medrwn Môn yn rhedeg Lleisiau Lleol, rhaglen sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae 9 mudiad yn aelodau o'r Portffolio, sydd wedi'i ddylunio i gael pobl i chwarae mwy o ran mewn dylunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau. Yn ogystal mae Lleisiau Lleol yn sicrhau ffyrdd effeithiol i alluogi unigolion a chymunedau i leisio barn a sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed yn ystod cyfnodau cynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus, gan ofalu bod darparwyr gwasanaeth yn cael clywed beth yn union y mae ar y gymuned ei angen. Model 'Adeiladu Cymunedau' sydd wedi'i fabwysiadu i hwyluso'r broses, drwy ddefnyddio'r dulliau ymgynghori gwahanol i greu darlun o holl asedau'r gymuned sy'n amrywio o wasanaethau lleol; adeiladau a llecynnau gwyrdd; pobl, gwybodaeth a sgiliau; i rwydweithiau lleol a gweithgareddau cymunedol.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
Rydym wedi gweithio mewn cymunedau i sicrhau eu bod yn chwarae rhan mewn penderfyniadau sy'n eu heffeithio hwy. Gyda llai o arian cyhoeddus ar gael, rydym wedi mynd ati i ddarganfod beth all cymunedau gyflawni ar eu pen eu hunain, neu hefo buddsoddiad neu gymorth gwasanaethau cyhoeddus a sut maent yn gallu darganfod datrysiadau ar y cyd i ateb anghenion cymunedol.

- Cefnogi a datblygu 4 Hyb Cymunedol
- Cydweithio gyda'r Cyngor Sir ar adnabod 3 model o ymgynghori ac ymgysylltu drwy'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgyngori ar y Cyd
- Cyfrannu tuag at flaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bwydo barn cymunedau drwy'r broses
- Cynnal a hwyluso Panel Dinasyddion Ynys Môn, gyda 67 aelod yn cyfranogi
- Cefnogi Cynghrair Seiriol i weinyddu £20,000 o gyllid datganoledig
- Datblygu safonau 'hawdd ei ddeall' drwy Lleisiau Lleol
- Ymgysylltu gyda dros 2390 o bobl drwy ein prosiect Swyddogion Cynnwys Cymunedau

**Beth oedd ein heffaith?**
Derbyniodd Cynghrair Seiriol £10,000 o gyllid datganoledig gan Gyngor Sir Ynys Môn fel prosiect peilot ac, gyda chyngor a chefnogaeth Medrwn Môn, fe rannwyd rhwng 4 Cyngor Cymuned ar sail eu bod yn ymgysylltu gyda'u cymunedau ar sut bydd yr arian yn cael ei wario.

Cynhaliwyd cyfarfod lle cyflwynwyd syniadau a chytunwyd arnynt gan aelodau'r Gynghrair. Mae'r cyllid wedi'i wario ar wneud addasiadau i neuaddau bentref, offer chwarae, pabell fawr (marquee) a gweithgareddau dros y Pasg yn yr ardaloedd. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r Cynghorau Cymuned gyfrannu arian cyfatebol o'u hadnoddau hwy eu hunain. Roedd blaenoriaethau gwario hefyd yn cyfateb i fylchau a blaenoriaethau adnabuwyd wrth gasglu gwybodaeth gwaelodlin.

Ar ôl derbyn £10,000 ychwanegol drwy gyllid Gronfa Gofal Canolranol, mae'r Gynghrair wedi sefydlu pwyllgor grantiau bychain i dderbyn ceisiadau gan y gymuned yn unol â'r canllawiau cyllido. Maent hefyd wedi creu a lansio safle we, a gyda chynllun bws mini cymunedol - yn unol â'r blaenoriaethau a adnabuwyd yn y rowndiau gwreiddiol o ymgynghori.

Mae datganoli £10,000 i fudiadau megis Cynghrair Seiriol yn eu caniatau i gysidro yn union sut y dylai'r arian hynny gael ei wario yn unol â'u blaenoriaethau ac mae wedi, mewn effaith, eu galluogi i fod yn fwy cynaliadwy wrth gyrraedd adnoddau wedi'u targedu ar gyfer y ward. Canlyniad hyn yw bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r prosiect, aelodau yn ennill sgiliau newydd mewn arwain mudiadau cymunedol a phrofiadau o weithio gyda'i gilydd i ddyrannu cyllid, sgiliau a phrofiadau.




# Dinasyddion gweithredol ac ymgysylltiol



Lluniau (ch-dd): poster Hyb Cymunedol Llanfairpwll; Hyb Llanfairpwll - Neuadd Goffa Llanfairpwll; Hyb Cymunedol Bryngwran - Yr Iorwerth Arms, Bryngwran

## Canlyniad: Mwy o gymunedau'n cael budd o wirfoddolwyr a mwy o fudiadau'n darparu cyfleoedd gwirfoddoli o safon

**Beth rydym yn ei wneud?**
Mae Medrwn Môn yn gweithio i sicrhau fod cymunedau Môn yn rhai gwydn ac wedi'u grymuso i wneud gwahaniaeth yn lleol drwy ddarparu gwasanaethau lleol dan arweiniad gwirfoddolwyr. Drwy weithio yn agos gyda'n cymunedau ar lawr gwlad, medrwn gefnogi unigolion i ddod at ei gilydd i adnabod anghenion lleol ac ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau hynny drwy weithred gwirfoddol a dinesig.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
Rydym wedi gweithio mewn cymunedau i sicrhau bod unigolion yn chwarae rhan flaenllaw mewn ymateb i sialensau a chyfleoedd cymunedol drwy wirfoddoli a chyfranogi. Mae nifer o bobl ar draws yr ynys wedi dod at ei gilydd i greu, datblygu a chyd-weithio ar Hybiau Cymunedol, Rhwydweithiau Lleol a grwpiau cymunedol. Mae Medrwn Môn yn gweithio i sicrhau adnoddau cefnogol i unigolion a chymunedau megis Linc Cymunedol Môn, sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i unigolion am wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael gan y trydydd sector a'r prosiect Cydlynu Asedau Lleol, sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd a grwpiau lleol i'w hannog i arwain a datblygu systemau cefnogi hwy eu hunain.

- Sicrhau cyllid i redeg prosiect Cydlynwyr Asedau Lleol mewn 2 dref i hybu cyfranogiad cymunedol
- Cefnogi 4 Hyb Cymunedol newydd
- Datblygu Rhwydweithiau Dementia Gyfeillgar gyda'r nod o fod yn Ynys Dementia Gyfeillgar
- Cynnal Linc Cymunedol Môn, gyda dros 2400 o ymholiadau am wasanaethau trydydd sector
- Datblygu 3 prosiect 'Men's Shed'
- Cynnal 1 ffair gwybodaeth / rhwydweithio i fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr



**Beth oedd ein heffaith?**
Datganolwyd cyllid o'r Gronfa Gofal Canolraddol i Medrwn Môn allu ymgysylltu gyda thrigolion yn Llanfairpwll mewn proses o adnabod yr angen am Hyb Gymunedol yn yr ardal. Wrth ddefnyddio model 'Adeiladu Cymunedau' a ddatblygwyd drwy ein prosiect Lleisiau Lleol, fe wnaeth Medrwn Môn gynnal nifer o sesiynau mapio yn yr ardal yn ogystal â digwyddiadau agored a sesiynau grwp ffocws. Roedd y dystiolaeth yn dangos mai'r Neuadd Goffa yn Llanfairpwll byddai'r lleoliad gorau ac mae prosiect Lleisiau Lleol wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Cymuned a thrigolion eraill ar adnabod sut all y cyllid cyfalaf gael ei wario.
Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ar ddechrau'r Haf ac mae'r gweithgareddau a adnabuwyd yn ystod y broses ymgynghori yn awr ar gael drwy Hyb Cymunedol Llanfairpwll, ar ei newydd wedd, ers i'r Hyb gael ei lansio yn Nhachwedd 2016.

Mae 2 hyb ychwanegol yn derbyn cymorth Medrwn Môn erbyn hyn - un ym Mryngwran a'r llall yn Llanfaelog. Mae'r ddau hyb yma wedi gweithio gyda Lleisiau Lleol i greu ffordd o ddal gwybodaeth am asedau lleol a hefyd am wybodaeth am beth mae pobl leol yn teimlo yr oeddynt eu hangen yn yr hybiau.

Mae'r hyb ym Mryngwran am gael ei leoli yn Nhafarn y pentref, sef y Iorwerth Arms, sydd, ers 2015, yn berchnogaeth y gymuned. Dywedodd Neville Evans, Cadeirydd Bryngwran Cymunedol:

"Rydym wedi colli'r siopau i gyd ac, heblaw am yr ysgol, bydda colli'r dafarn yn golygu byddai dim byd ar ôl, mae gennym ni weledigaeth gyffrous i'r dyfodol ac rydym eisiau agor y drysau i bob aelod o'r gymuned. Rydym yn barod wedi agor y drysau i bobl hyn y pentref ac yn gobeithio ehangu hyn yn y dyfodol".

Bydd yr hybiau cymunedol yn cael eu defnyddio i greu mwy o gyfleoedd i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau bydd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a chynyddu llesiant drwy ddod a gwasanaethau lleol i'r ardaloedd.
Mae'n gyfle i bobl ddod i gymdeithasu a bod yn fwy annibynnol a gwydn drwy adnabod gweithgareddau a gwasanaethau yr hoffent hwy ei weld ar gael yn yr hybiau.

Talwyd y cyllid i grwpiau trydydd sector a chynghorau cymuned a bydd yn cael ei ddefnyddio i annog cynaladwyedd a chynyddu'r defnydd o adeiladau lleol fel lleoliadau i ddod a'r gymuned at ei gilydd.

# Trydydd sector hyfyw a chynaliadwy



## Canlyniad: Ymddiriedolwyr hyderus o ran arwain eu mudiadau a chynnal safonau uchel o lywodraethu

**Beth rydym yn ei wneud?**
Mae Medwn Môn yn cynnig ystod eang o wasanaethau i gefnogi ymddiriedolwyr i lywodraethu eu grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn effeithiol yn ogystal â'u cynorthwyo hwy i symud tuag at fod yn gynaliadwy a chreu ffynhonellau incwm newydd.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
Rydym wedi gweithio gyda grwpiau newydd a grwpiau wedi'u sefydlu i'w cefnogi gyda'u hymholiadau am lywodraethu a threfniadaeth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei deilwra i gefnogi grwpiau i ddatblygu ymarferion cadarn a gweithredu'n fwy effeithiol.

Rydym wedi cefnogi grwpiau ar faterion o gychwyn grwp i gau grwp i lawr, i gydymffurfiad, rheoli cyllid, cefnogaeth adnoddau dynol, canlyniadau, monitro effaith a systemau ansawdd.

Drwy hyn oll, mae gwasanaeth datblygu Medrwn Môn yn helpu grwpiau lleol i ateb y galw a hwyluso gwelliant i ddarpariaeth gwasanaeth.

- Ymateb i 8 ymholiad gan ymddiriedolwyr ynglyn â materion llywodraethu
- Cynnal 2 digwyddiad ymddiriedolwyr gyda 74 yn mynychu
- Cefnogi 1 Cynghrair Cymunedol i sefydlu, gan roi cyngor ar dyrannu grantiau cymunedol a materion llywodraethol

**Beth oedd ein heffaith?**
Derbyniodd Medrwn Môn ymholiad gan Banc Bwyd Ynys Môn, Pantri No. 6, yn dilyn ail-drefnu'r pwyllgor - roedd y gwirfoddolwyr newydd yn awyddus i ddechrau o'r newydd a rhoddwyd cyngor ar lywodraethu, strwythur a ffurf mudiad newydd. Fe sefydlodd y grŵp fel Cwmni Cyfyngedig gan Warant gyda chyngor pellach yn cael ei gynnig am recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, gydag awgrym i gysylltu â chlwb ieuenctid lleol a'r ysgol uwchradd. Roedd y grŵp hefyd yn chwilio am arweiniad am gyllid a gyda chymorth gan Medrwn Môn, fe lwyddodd y grŵp i sicrhau £5,000 oddi wrth Arian i Bawb Cymru. Fel un o 4 Banc Bwyd ar yr ynys, fe wnaeth Medrwn Môn annog Pantri No. 6 i wneud cysylltiad gyda'r banciau bwyd eraill i ddysgu a rhannu profiadau.

Fe roddodd Medrwn Môn cefnogaeth bellach i Pantri No. 6 pan wnaeth y grŵp sylweddoli fod eu hadeilad cyfredol yn ddrud i'w rhentu (£5,000 y flwyddyn) ac yn anaddas i redeg eu prosiect - fe wnaed cysylltiad hefo Medrwn Môn ac fe drefnwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Tref; roedd adeilad cyfagos i Siambr y Cyngor ar gael ar ddydd Mercher am ffi o £10.00 gan gynnwys gwres / trydan a.y.b.

Mae cyd-weithio gyda'r Cyngor Tref a gweithredu o ofod llai a fwy pwrpasol yn galluogi Pantri No.6 i ffocysu ar eu prosiect a'r tasgau pwysig o ymestyn oriau agor, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a marchnata yn hytrach na rhoi eu hymdrech i gyd i mewn i ymgeisio am grantiau cyfalaf i wella adeilad yr oeddynt yn ei rhentu. Mae'r symud i adeilad newydd hefyd wedi'u hysgogi i ffocysu ar gyflwyno datganiadau i'r wasg a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect cymdeithasol sy'n gwasanaethu'r gymuned yn nalgylch Amlwch, tref wledig yng Ngogledd Môn.

Gyda chefnogaeth gychwynnol, mae'r fenter gymdeithasol angenrheidiol yma yn gallu parhau, cyfnerthu a datblygu i ddenu gwirfoddolwyr, diogelu'r gwirfoddolwyr cyfredol a pharhau i rannu parseli bwyd ar fwy nag un diwrnod yr wythnos a gwasanaethu'r gymuned yn nalgylch Amlwch.

# Trydydd sector hyfyw a chynaliadwy







Lluniau (ch-dd): digwyddiad codi ymwybyddiaeth grantiau cymunedol Cronfa Loteri Fawr; Sesiwn hyfforddiant; Parc sglefrio, Llangefni

## Canlyniad: Trydydd sector sydd â'r wybodaeth a sgiliau i alluogi mudiadau i weithredu'n gynaliadwy

**Beth rydym yn ei wneud?**
Mae Medwn Môn yn cynnig ystod eang o wasanaethau i gefnogi mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol ym Môn drwy ddarparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth; cyngor cyllido; hyfforddiant a chyrsiau i sicrhau bod y trydydd sector gyda'r sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i alluogi iddynt weithredu'n gynaliadwy. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau ymarferol i grwpiau a mudiadau.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
Darperir gwybodaeth gyfredol drwy ein cylchlythyr Dan Do Môn. Cynhyrchwyd 4 cylchlythyr yn ystod 2016-17 a dosbarthwyd i dros 882 o fudiadau. Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar-lein i ledaenu negeseuon am ein gwaith. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth i'r sector, gyda thaflenni gwybodaeth ar lywodraethu, cyllido, codi arian, tendro, grantiau a benthyciadau, cynhyrchu incwm a dogfennau llywodraethu. Rydym wedi darparu hyfforddiant ar bynciau megis Diogelu Plant a Phobl Ifanc a Goruchwyliaeth a Chefnogaeth. Eto eleni bu staff Medrwn Môn yn paratoi a rhannu pabell gyda mudiadau a grwpiau yn Sioe Môn.

Mae'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn codi capasiti staff a gwirfoddolwyr i allu rhedeg eu mudiadau a grwpiau yn fwy saff a chyfrifol a'u galluogi i gefnogi pobl yn eu cymunedau.

- Cynnal 10 sesiwn hyfforddiant gyda 111 o gyfranogwyr
- Adborth gan gyfranogwyr yn nodi bod 100% yn ystyried ein sesiynau hyfforddiant yn ardderchog neu'n dda iawn
- 5400 o sesiynau ymwelwyr i'r safle we
- Darparu 4 rhifyn o Dan Do Môn
- Darparu gwasanaethau ymarferol 189 o weithiau
- Codi ymwybyddiaeth 2 ddeddf newydd
- Paratoi pecyn cymorth ar gyfranogi
- 9 mudiad/grwp yn rhannu pabell Sioe Môn
- Cynnal 5 cymhorthfa cyllido gyda 80 o gyfranogwyr

**Beth oedd ein heffaith?**
Mae grwpiau cymunedol yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae cael pobl yn dod at ei gilydd i ffurfio grŵp yn helpu i wella cymuned, mae'n hybu cynhwysiant cymdeithasol ac yn cynyddu'r niferoedd o bobl sy'n chwarae rhan uniongyrchol yn eu cymuned. I alluogi'r grwpiau cymunedol yma ffynnu, mae'n hanfodol bod yr adnoddau (ariannol ac eraill) ganddynt i gynnal eu gwasanaethau a gweithgareddau.
Mae Medrwn Môn yn trefnu a chynnal nifer o gymorthfeydd cyllido ac mae'n gyfle i grwpiau a mudiadau gael sgwrs a thrafodaeth ynglŷn â phrosiectau posibl a cheisiadau cyllid arfaethedig gyda chyllidwyr. Manteision y cymorthfeydd hyn yw eu bod yn caniatáu trafodaeth fanwl gyda'r grŵp am y prosiect arfaethedig, gan siarad drwy'r ffrydiau ariannu posibl a'r math o wybodaeth y byddai ei hangen, gan gynnwys costau/cyllideb, edrych ar sut mae'r grŵp wedi'i sefydlu a ph'un a oes ganddynt bolisïau priodol yn eu lle.

Ymhlith y cyllidwyr sy'n mynychu cymorthfeydd cyllido a drefnir gan Medrwn Môn, mae:

Y Gronfa Loteri Fawr
Sefydliad Lloyds TSB
Plant Mewn Angen y BBC
WCVA

Un o lwyddiannau mwyaf cymorthfeydd cyllido Medrwn Môn eleni yw Parc Sglefrio Llangefni, sydd wedi sicrhau cyllid o £370,000 gan y Gronfa Loteri Fawr ar ôl i gynrychiolwyr y grŵp fynychu Cymhorthfa Cyllido yng Nghanolfan Ebeneser yn Llangefni, wedi iddynt dderbyn cyngor gan Medrwn Môn i geisio am gyllid Y Gronfa Loteri Fawr. Maent eisoes wedi sicrhau £37,000 o gyllid gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn tuag at y prosiect ac rydym wedi eu cynorthwyo ymhellach gyda pholisïau a threfnu hyfforddiant Diogelu Plant.

# Trydydd sector hyfyw a chynaliadwy

## Canlyniad:
## Mudiadau sy'n sicrhau'r adnoddau a chreu gwasanaethau newydd angenrheidiol i oroesi a thyfu




**Beth rydym yn ei wneud?**
**Mae Medrwn Môn yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu rhwydwaith gefnogol o wasanaethau i grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol a bod y grwpiau a mudiadau hynny yn ffynnu ac yn cael defnydd.**

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
**Drwy sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o'r gwasanaethau mae'r trydydd sector yn ei ddarparu i unigolion ar draws yr ynys, rydym yn gallu cyfeirio ac annog defnydd o'r gwasanaethau trydydd sector yma. Os oes bylchau mewn darpariaeth, byddem yn amlygu hyn i wasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt gysidro comisiynu darnau penodol o waith gan y trydydd sector.**

**Mae Linc Cymunedol Môn yn gallu hyrwyddo gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol.**

- **Ymateb i dros 2400 o ymholiadau Linc Cymunedol Môn**
- **Cynnal peilot gwasanaeth Daisy**
- **Datblygu 3 Rhwydwaith Dementia lleol**
- **Cychwyn 'Men's Shed' yn Llangefni**
- **Ymateb i 45 ymholiad cyllido**
- **Llwyddo i ddenu £563,150 o fuddsoddiad newydd i weithred lleol, cyfleusterau a gwasanaethau**
- **Sicrhau buddsoddiad o £50,000 i ddatblygu hubiau cymunedol**
- **Hybu gwasanaethau trydydd sector gyda Clwstwr Meddygon Môn a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill**

**Beth oedd ein heffaith?**
Yn ystod 2016-17 fe dderbyniodd Linc Cymunedol Môn dros 2400 o ymholiadau. Mae Linc Cymunedol Môn yn gweithredu fel Un Pwynt Mynediad ar gyfer pobl Ynys Môn i gael gwybodaeth am fudiadau trydydd sector sy'n gallu darparu cymorth a gwybodaeth i fynd i'r afael â'u hanghenion lefel is.


Mae Linc Cymunedol yn derbyn cyswllt uniongyrchol gan unigolion, ond hefyd yn derbyn cyfeiriadau gan y Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yn ogystal ag eraill, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Mae nifer y cyfeiriadau uniongyrchol a'r galwadau i Linc Cymunedol Môn wedi cynyddu ac mae gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau lleol yn cynyddu. Mae Swyddog Datblygu'r Linc yn gweithio gyda phrosiect Lleisiau Lleol i fapio gwasanaethau yn ogystal â'r tîm Cydlynu Asedau Lleol, sy'n gweithio ar lawr gwlad i roi cymorth i unigolion wneud cysylltiadau a'u cymuned a rhoi gwybod iddynt am weithgareddau cymunedol neu wasanaethau gwirfoddol all fod o gymorth iddynt.

Drwy weithio gyda North Wales Deaf Awareness, drwy'r prosiect Lleisiau Lleol daeth i'r amlwg bod nifer o bobl yn ein cymunedau methu defnyddio gwasanaethau gan eu bod yn defnyddio ffôn neu e-bost i gysylltu a golyga hyn fod pobl fyddar neu gyda phroblem clyw yn gorfod dibynnu ar berson arall i gysylltu ar ei rhan. Fe gynhaliwyd peilot o'r enw DAISY – 'Digital Access Interpreting System for Anglesey' am gyfnod o 6 mis ac roedd unigolion yn gallu cysylltu hefo Linc Cymunedol Môn drwy Skype dros o we ac yn gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

# Ymgysylltu effeithiol mewn polisi







## Canlyniad: Sector sy'n cyfrannu'n effeithiol i bolisiau ar bob lefel

**Beth rydym yn ei wneud?**
Mae sicrhau bod llais trydydd sector Ynys Môn yn cael ei glywed ac y rhoir clust iddo yn un o nodau allweddol Medrwn Môn. Mae rhannu llais y sector yn rhoi llais cryfach i gymundau gan herio a dylanwadu sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**
Mae gan fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol rôl hanfodol mewn mynd i'r afael ag anghenion lleol cymunedau. Maent yn gallu cynrychioli llais y gymuned maent yn gwasanaethu, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hymyleiddio.

Gyda chymorth gan Medrwn Môn, mae mudiadau a grwpiau wedi casglu safbwyntiau a phrofiadau unigolion sy'n derbyn neu'n defnyddio'u gwasanaethau ac wedi cyfrannu tuag at gyd-gynllunio neu wella gwasanaethau cyhoeddus. Maent hefyd wedi gallu darparu gwybodaeth leol amrywiol, gwerthfawr.

Fel Cyngor Gwirfoddol Sirol, mae Medrwn Môn yn darparu platfform i'r sector gyfleu negeseuon drwy ein rhwydweithiau a pherthnasau gyda chyrff cyhoeddus megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd. Yn ogystal mae Medrwn Môn wedi bod yn ffynhonnell ddata a gwybodaeth ynddo'i hun.

- 10 o grwpiau cynllunio/gweithgorau strategol sy'n cynnwys aelodau'r trydydd sector
- 8 fforwm neu rwydwaith trydydd sector sy'n cael cymorth

**Beth oedd ein heffaith?**
Dros y blynyddoedd diwethaf bu Medrwn Môn a Lleisiau Lleol yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ynys Môn drwy Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol i ddatblygu Cytundeb Compact Ynys Môn, sef cytundeb partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Trydydd Sector yn Ynys Môn. Yn ogystal, bu datblygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (Cod Cyllido), sy'n nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer trefniadau ariannu gyda'r Trydydd Sector.

Yn ystod 2016-17, wedi i'r Cyngor Sir ymgynghori ar eu Cyllideb ar gyfer 2017-18, fe ymgymerodd Medrwn Môn arolwg i weld os oedd y trydydd sector wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor Sir, os oeddynt yn ymwybodol o'r Cod Cyllido a sut oedd yn gweithio a.y.y.b. Roedd y canlyniadau yn dangos fod nifer o faterion allweddol i weithio ar gyda'r Cyngor Sir, gan gynnwys trefniadau paratoi dogfennau tendro, codi ymwybyddiaeth staff y Cyngor, codi ymwybyddiaeth o fewn y trydydd sector a annog y trydydd sector i ymgysylltu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Mae Medrwn Môn wedi pwyso ar y Cyngor Sir, drwy'r Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, i sicrhau fod egwyddorion y Cod Cyllido yn cael eu mabwysiadu a'u gweithredu. I gefnogi'r achos fe ddefnyddiodd Medrwn Môn ymatebion a chanlyniadau'r holiadur y trydydd sector fel tystiolaeth pan yn cyflwyno'r darganfyddiadau i'r Pwyllgor Cyswllt. Gofynwyd i'r Cyngor Sir ystyried y darganfyddiadau wrth gynllunio i ymgynghori ar Gyllideb 2017-18. Penderfynwyd creu Cynllun Gwaith i sicrhau bod negeseuon o fewn y Compact a'r Cod Cyllido yn cael eu rhannu.

# Ymgysylltu effeithiol mewn polisi

## Canlyniad:
## Y sector yn cael ei gydnabod fel llwybr hanfodol i gyfranogiad ac ymgysylltu, gan gynnwys gyda grwpiau lleiafrifol a rhai dan anfantais






**Beth rydym yn ei wneud?**

I alluogi ein cymunedau i fod yn wydn ac wedi'u grymuso, mae'n angenrheidiol i'r bobl fod yn frwdfrydig ac yn ymgysylltu mewn cynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus ac yn hyderus bod eu Llais yn cael ei glywed. Mae Medrwn Môn yn chware rôl bwysig mewn hwyluso prosesau i unigolion a chymunedau adnabod anghenion neu bryderon gwir ac, o bosib, cuddiedig, i leisio barn ac i ddylanwadu ar wasanaethau lleol a strategaeth yn effeithiol. Mae'r annibyniaeth yma - o bwrpas, llais a gweithred - yn allweddol i bwrpas Medrwn Môn. Mae'n galluogi Medrwn Môn i gynrychioli'r materion sy'n bwysig i'r rhai sydd â diffyg dylanwad a phŵer. I lwyddo i wneud hyn, mae'n rhaid i Medrwn Môn fod yn (a chynnal bod) yn annibynnol. Ni ddylai Gwasanaethau Cyhoeddus orchymyn blaenoriaethau, distewi negeseuon, neu rwystro Medrwn Môn rhag gwneud ein gwaith mewn unrhyw ffordd.

**Beth wnaethom gyflawni yn 2016-17?**

Lle bo'r sector gwirfoddol a chymunedol gyda chynrychiolaeth ar Fyrddau a Phartneriaethau, mae'n ymarfer da i hyn gael ei gefnogi gan strwythurau ar gyfer ymgysylltu ac adborth gan y sector ehangach. Mae Medrwn Môn yn gweinyddu fforymau a rhwydweithiau i ddarparu'r ymgysylltiad ac adborth; er enghraifft, bu cyfarfod o'r Rhwydwaith Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles yn trafod y sgwrs "Beth sy'n bwysig?" a'r pwysigrwydd o gynnwys y trydydd sector yn yr ymarfer a rhoddwyd adborth i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ei ymgyrch cenedlaethol #bethsy'nbwysigichi. Ein gwaith mwyaf dylanwadol eleni, fodd bynnag, yw'r gwaith o ddatblygu Panel Dinasyddion Ynys Môn a Chyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni).

- 67 aelod o Banel Dinasyddion Ynys Môn
- Ymatebodd aelodau'r panel i 30 ymgynghoriad

**Beth oedd ein heffaith?**

Mae Medrwn Môn yn gweinyddu Panel Dinasyddion Ynys Môn ac mae Cyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni) yn aelod o bortffolio ein prosiect Lleisiau Lleol; mae'r ddau brosiect yma (sy'n deillio o brosiect Lleisiau Lleol) yn rhoi cyfle uniongyrchol i unigolion leisio barn ar wasanaethau cyhoeddus, drwy Medrwn Môn.

Fel Cyngor Gwirfoddol Sirol, mae Medrwn Môn wedi darparu platfform i unigolion a'r sector gyfleu negeseuon drwy ein rhwydweithiau a pherthnasau gyda chyrff cyhoeddus megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd. Yn ogystal mae Medrwn Môn yn ffynhonnell ddata a gwybodaeth ynddo'i hun.

Pwrpas Panel Dinasyddion Ynys Môn yw bod yn llais i gymuned ehangach Ynys Môn ar gyfer unrhyw berson dros 16 oed sy'n byw ar Ynys Môn i rannu barn am wasanaethau cyhoeddus. Mae aelodau o'r panel yn cael dewis pynciau sydd o ddiddordeb iddynt o bynciau fel Hamdden, Swyddi i Iechyd. Mae aelodau'n dewis sut yr hoffem gymryd rhan ac mae Medrwn Môn yn rhoi gwybod i aelodau'r panel sut maent yn gwneud gwahaniaeth drwy roi adborth rheolaidd. Mae 67 o aelodau gweithredol ar y panel ac maent wedi cael dweud eu dweud mewn 30 ymgynghoriad yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau yn cynnwys cyllidebau a blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Thipio Anghyfreithlon ac wedi cymryd rhan mewn 3 digwyddiad ymgynghori. Mae aelodau hefyd wedi dweud wrthym ba mor hawdd oedd hi i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau 42 o weithiau.

# Ymgysylltu effeithiol mewn polisi



Lluniau (ch-dd): aelodau o Llais Ni yn cwrdd â Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn yn Sioe Môn; Cyfarfod Pwyllgor Craffu Cyngor Sir Ynys Môn; Gweithdy Craffu Llais Ni gyda'r Cyngor Sir








## Canlyniad:
## Sector sy'n chwarae rôl effeithiol mewn cynllunio, cyflenwi a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus

**Beth rydym yn ei wneud?**

Mae Medrwn Môn yn rhedeg rhaglen Lleisiau Lleol sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae 9 mudiad yn aelodau o'r Portffolio, sydd wedi'i ddylunio i gael pobl i chwarae mwy o ran mewn dylunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau. Yn ogystal mae Lleisiau Lleol yn sicrhau ffyrdd effeithiol i alluogi unigolion a chymunedau i leisio barn a sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed yn ystod cyfnodau cynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus, gan ofalu bod darparwyr gwasanaeth yn cael clywed beth yn union y mae ar y gymuned ei angen. Mae Cyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni) yn un o 9 aelod o bortffolio Lleisiau Lleol.

**Beth wnaethom ni gyflawni yn 2016-17?**

Mae Llais Ni Ynys Môn yn deillio o'r prosiect Lleisiau Lleol, a ariannwyd gan y Loteri Fawr am 4 mlynedd.

Pwrpas Cyngor Ieuenctid Ynys Môn (Llais Ni) yw sicrhau bod llais pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn cael ei glywed a'i gyfleu yn yr un modd a'r Panel Dinasyddion. Mae 31 o aelodau gweithredol.

- 31 aelod o Llais Ni
- 1 o 9 aelod o Portffolio Lleisiau Lleol

**Beth oedd ein heffaith?**

Yn ystod 2016-17 fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn redeg peilot, mewn partneriaeth â Llais Ni, i sefydlu ffordd o weithio sy'n galluogi mewnbwn gan bobl ifanc ac sy'n ychwanegu gwerth i graffu.

Fe edrychodd y peilot yn benodol ar y broses o osod Cyllideb y Cyngor Sir ar gyfer 2017/18 a rhoi prawf i weld sut i wella ymgysylltiad pobl ifanc mewn prosesau democrataidd. Roedd yn archwilio sut i ddatblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r broses o symud thema o ymgynghoriad i graffu gan Aelodau. Fe gaeth y peilot yma ei amlygu yn genedlaethol fel model o ymarfer da gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru.

Fe wnaeth aelodau o Llais Ni greu hanes wrth fod y grŵp o bobl ifanc cyntaf i fynychu Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, ym mis Chwefror 2017.

Mae 301 o grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol wedi cofrestru fel aelodau neu aelodau cyswllt

Rhoddwyd cymorth ymarferol, fel ffotogopio neu hurio offer, 189 o weithiau i grwpiau neu fudiadau

Derbyniodd Medrwn Môn 2637 o ymholiadau

Dros 1500 o ddilynwyr ar Twitter and Facebook

5400 o ymwelwyr unigryw i'n safle we

Mae 882 tanysgrifiwr ar ein rhestr postio

Panel Dinasyddion gyda 67 aelod a wedi cymryd rhan mewn 30 ymgynghoriad

£563,150 o gyllid wedi'i sicrhau gyda chymorth Medrwn Môn

Derbyniwyd dros 2400 o ymholiadau drwy Linc Cymunedol Môn

Linc Môn

Cymunedol Community

Môn Link

10 rhwydwaith, gynhadledd a digwyddiadau wedi'u cynnal i rannu ein dysgu

MEDRWN MÔN

Gwranadawyd ar 3000 o leisiau pobl am eu cymunedau

10 person yn gwirfoddoli i Car Linc Môn

375 o deithiau hanfodol gan wirfoddolwyr Car Linc Môn

9748 milltir wedi eu gyrru gan ein gwirfoddolwyr

4 rhifyn o Dan Do Môn wedi ei cynhyrchu a'i ddosbarthu i dros 882 mudiad

Trefnwyd 10 o gyrsiau hyfforddiant gyda 111 o gyfranogwyr

Roedd adborth gan gyfranogwyr yn nodi bod 100% yn ystyried bod y cyrsiau yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'

Cefnogwyd 45 o grwpiau / mudiadau gyda ymholiadau cyllido

GwirVol

Dosbarthwyd £4000 o grantiau i'r sector gan y Panel dan Arweiniad Pobl Ifanc er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc

Buddsoddodd Medrwn Môn £152,973 mewn mudiadau ar Ynys Môn















MEDRWN MÔN







gwrandwch
listen



# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 9 Gorffennaf, 2018 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Gwrth Dlodi |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Argymell cymeradwyaeth i'r Pwyllgor Gwaith yn dilyn cyfnod ymgynghori |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng G O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llyr<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Nid yn bendol i ward |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Bod y Pwyllgor Sgrwtini yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth Dlodi. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r Cynllun Corfforaethol, 2017-2022 yn nodi bod angen 'Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor sydd wedi'u dylunio i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cydlynu'n effeithiol'. Byddai peidio cyflwyno Strategaeth yn golygu na fyddai posib cyflawni hyn neu byddai ymatebion yn ddarniog. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Fel mae'r Strategaeth Gwrth Dlodi yn ei nodi gall tlodi gael effaith ar unigolion a chymunedau, gyda effaith yn gallu bod yn gyfnod byr neu dymor hir.

Mae'r angen am Strategaeth Gwrth Dlodi wedi ei adnabod fel blaenoriaeth ar gyfer rhaglen waith yr Uned Strategol, Gwasanaethau Tai yn 2017-18 ac yn cael ei yrru ymlaen gan y Cynllun Corfforaethol, 2017-22 sydd yn nodi'r angen i:

- Greu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir
- Gefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Weithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

Mewn ymateb i'r uchod mae'r Strategaeth yn cael ei gyflwyno er mwyn:
- Cael cytundeb ar ddiffiniad o dlodi yn gorfforaethol
- Codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgaredd Gwasanaethau a phartneriaid
- Datblygu dull o fesur effaith Gwasanaethau a'r daclo tlodi o fewn ein cymunedau

**3.2** Un o brif risgiau wrth weithredu y strategaeth yw nad ydyw Gwasanaethau yn asesu mewn dull pro-actif sut mae penderfyniadau neu ffordd mae gwasanaethau yn cael eu datblygu yn cymryd i ystyriaeth tlodi.

**3.3** Mae hon yn Strategaeth Gorfforaethol ac ddim yn ffitio o fewn un gwasanaeth yn benodol; felly mae sgrwitini yn allweddol wrth ddatblygu y berthynas rhwng Gwasanaethau a'r cyfnod ddatblygol o weithredu y Strategaeth.

**3.4** Mae'r Strategaeth hefo linc cynhenid ag Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

Nid oes Strategaeth Taclo Tlodi Corfforaethol yn bodoli yn bresennol.

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

- Pa rol sydd gan y Pwyllgor Sgrwtini mewn gyrru'r Strategaeth ymlaen?
- Sut gall y Pwyllgor Sgrwtini wneud yn siwr bod tacl tlodi yn cael ei weld yn ystyriaeth allweddol i wasanaethau?
- Oes cyswllt clir gyda blaenoriaethau sydd wedi ei hadnabod yn Cynllun Llesiant Ynys Mon a Gwynedd ?
- Pa mor dda yw'r strategaeth yn adlewyrchu barn cymunedau / rhanddeiliaid ar fynd i'r afael â thaclo thlodi?
- Sut bwriedir monitro ac adrodd cynnydd ar weithredu'r strategaeth?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae ymgynghori wedi digwydd drwy safle we y Cyngor, cyfryngau cymdeithasol a linc wedi ei yrru at prif bartneriaid, o'r ymatebion roedd pob un yn ymateb ar ran sefydliad.

Mae'r crynodeb isod:

- Mae pawb yn cytuno gyda pwrpas y Strategaeth
- Gan ddefnyddio data sydd yn berthnasol i Ynys Mon gellir cael gwaelodlin a ellir ei ddatblygu yn bellach
- Mae ymatebion yn dangos bod gan y Cyngor rol ganolog mewn cydlynu a chael effaith ar dlodi. Mae rhai ymatebion yn benodol i wasanaethau ac byddent yn cael eu rhannu gyda hwy.
- Mae'r trydydd sector a phartneriaid yn cydnabod bod ganddynt rol mewn delio gyda thlodi ac yn barod i weithio hefo'r Cyngor.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Gweler atodiad 2 |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Nid oes adnoddau ychwanegol wedi ei neilltuo ar gyfer y Stratgaeth |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Strategaeth Gwrth Dlodi<br>2. Asesiad Effaith |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| - |

**Strategaeth Gwrth Dlodi**

**Mehefin 2018**

**Strategaeth Gwrth Dlodi Drafft**

1. **Cyflwyniad**

Mae'r teitl Tlodi yn ymddangos yn y newyddion yn ddyddiol bellach, gyda thlodi yn amlygu ei hun mewn amrywiol ffyrdd, o ddiwygiadau lles, tlodi tanwydd i lefelau incwm isel. Cyfeiri at deuluoedd sydd yn gweithio ar gyflogau isel fel 'Just about manging' (JAM). Yn aml teimlir nad oes modd i unigolion a theuluoedd wella eu sefyllfa eu hunain ac fe ymhelaethir ar hyn gan Joseph Rowntree Foundation (JRF):

*'Poverty is damaging to those directly affected and to our economy and society. Poverty is linked to additional public spending on health, education, social care and police and criminal justice services in Wales of around £3.6 billion a year, equivalent to over 20% of the Welsh budget, with additional costs from lost tax revenues and costs to the social security system.*

*Poverty casts a long shadow over people's lives. Children who grow up in low-income households have poorer mental and physical health than those who grow up in better-off families, and people who have experienced poverty or live in a deprived area have fewer years of life free from illness or disability and are likely to die sooner. At every stage of education, children from low-income backgrounds achieve worse results at school than those from better-off homes, increasing the risk that poverty will be passed from one generation to the next. And poverty acts as a brake on economic growth, limiting the skills and talents available to employers, reducing earnings potential which affects Treasury tax revenues, and diverting resources to top-up low wages that could be used in other ways*.'

Un o'r negeseuon cryfaf am dlodi yng Nghymru bellach yw bod nifer o bobl sydd o fewn oedran gweithio mewn mwy o dlodi o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl.

2. **Pwrpas cyflwyno'r Strategaeth**

Mae'r angen am Strategaeth Gwrth Dlodi wedi ei adnabod fel blaenoriaeth ar gyfer rhaglen waith yr Uned Strategol, Gwasanaethau Tai yn 2017-18 ac yn cael ei yrru ymlaen gan y Cynllun Corfforaethol, 2017-22 sydd yn nodi'r angen i:

- Greu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir
- Gefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
- Weithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

Mewn ymateb i'r uchod mae'r Strategaeth yn cael ei gyflwyno er mwyn:
- Cael cytundeb ar ddiffiniad o dlodi yn gorfforaethol
- Codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgaredd Gwasanaethau a phartneriaid
- Datblygu dull o fesur effaith Gwasanaethau a'r daclo tlodi o fewn ein cymunedau

Y bwriad yw cyflwyno Strategaeth Gwrth Dlodi bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnal ymgynghoriad allanol yn fuan yn 2018. Nid oes Strategaeth Taclo Tlodi Corfforaethol yn bodoli yn bresennol.

Mae'r Strategaeth Gwrth Dlodi yn atgyfnerthu rôl y Cyngor gyda'r agenda atal er mwyn cael canlyniad gwell, golyga hyn, yn hytrach na cheisio datrys materion ymhellach ymlaen pan maent yn fwy cymhleth ac yn tynnu ar fwy o adnoddau.

3. **Beth yw tlodi?**

| |
|---|
| Mae gan bawb syniad personol o beth yw tlodi gan nad oes un diffiniad pendant i'w ddisgrifio. Er mwyn cynnig cysondeb mae'r diffiniad isod yn cael ei gynnig gan y Joseph Rowntree Foundation (JRF) gan nad yw yn cyfeirio at incwm yn unig :-<br><br>**Pan rydym yn son am dlodi, yr elfen fwyaf amlwg yw incwm- ond gall hefyd gynnwys diffyg mewn gallu i gael nwyddau a mynediad i wasanaethau angenrheidiol** |
| **'When a person's resources (mainly their material resources) are not sufficient to meet their minimum needs (including social participation).'** |

Mae hyn yn gyson gyda'r ddogfen ddiweddar Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 gan Lywodraeth Cymru (LLC) sydd yn rhoi pwyslais ar ffyniant sydd yn golygu 'mwy na chyfoeth materol − mae'n golygu bod pob un ohonom yn cael bywyd o ansawdd da, ac yn byw mewn cymunedau cryf a diogel'.

Mae'r Cynllun Gweithredu sy'n nodi sut bydd yr uchod yn cael ei gyflawni wedi ei gyhoeddi gan LLC yn Rhagfyr,2017 fydd yn:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
- Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig

http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

Mae rhain yn rhoi sail i'r Cyngor fabwysiadu 5 thema ar lefel strategol, sef:

1. **Twf economaidd i bawb**- drwy gael swyddi gwell, swyddi lleol a chymorth i bobl allu cael gwaith
2. **Cynnydd mewn addysg a sgiliau** - sicrhau safon uchel o ddysgu, prentisiaeth, sgiliau ar gyfer oedolion a chyngor gyrfaol da
3. **Cryfhau teuluoedd a chymunedau** -darparu gwasanaethau sydd yn cefnogi teuluoedd a chymorth blynyddoedd cynnar, mynediad amserol i wasanaethau fel iechyd meddwl
4. **Arbed costau a lleihau'r galw**- drwy ddarparu tai fforddiadwy a gwasanaethau fel trafnidiaeth, we a lleihau gofynion fel costau ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni
5. **Cefnogaeth i bobl sydd mewn tlodi** - bydd nifer fechan o'r boblogaeth angen mwy o gefnogaeth oherwydd sefyllfa bersonol fel digartrefedd,iechyd meddwl neu drais yn cartref a bydd angen sicrhau gwasanaeth sydd yn rhoi'r person yn y canol gan gynnydd cryfderau'r unigolyn dros amser achynnig gwasnaethau ataliol

Mae'r uchod yn seiliedig ar adroddiad diweddar gan JRF 'Prosperity without Poverty' sydd yn gosod fframwaith yn benodol ar gyfer Cymru. Wrth gyflwyno y themau uchod bydd hyn yn hwyluso i wasanaethau berthnasu ei meysydd gwaith i'r themâu hyn.Mae modd perthnasu'r rhain i'r Cynllun Corfforaethol cyfredol.

## 4. Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae’r isod yn gosod cyd-destun Cenedlaethol a Lleol i pam bod angen Strategaeth Taclo Tlodi:

Mae’r ddogfen **Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol** sydd wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar yn nodi bod ‘ffyniant yn golygu mwy na chyfoeth materol’.

Nod hirdymor y Strategaeth Genedlaethol yw creu Cymru sy’n ffyniannus a diogel, sy’n iach ac egnïol, sy’n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy’n unedig a chysylltiedig. Mae Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen,* yn nodi’r prif ymrwymiadau i’w gwireddu rhwng nawr a 2021. Prif themâu'r Strategaeth Ffyniant i Bawb yw bod Cymru yn:

**Ffyniannus a Diogel** - nod yw creu economi yng Nghymru sy’n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy’n mynd i’r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i’r genedl.
**Iach ac Egnïol** – nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau.
**Uchelgeisiol ac yn Dysgu** – nod yw creu’r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a’u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod.
**Unedig a Chysylltiedig** - nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a’r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd.

Nol yn 2010, cyflwynwyd LLC Mesur Plant a Theuluoedd, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i gynnwys ymrwymiad i drechu tlodi plant yn ei deddfau.Fe gyhoeddwyd i Strategaeth Tlodi Plant i Gymru gyda’r bwriad o wella canlyniadau aelwydydd incwm isel, gan roi dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i gydweithio i taclo tlodi plant.

Mewn adolygiad y 2015, maent yn cydnabod nad ydynt am wireddu’r uchelgais o gael gwared o dlodi plant erbyn 2020, fel a nodir yn Neddf Tlodi Plant, 2010. Mae LLC felly am ddatblygu dull amgen mwy realistig, lle byddent yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o dlodi plant y gall Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru ddylanwadu’n uniongyrchol arnynt. Un dull o gyflawni hynny yw drwy’r Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

### Cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Datganiad Amcanion Lles y Cyngor yn adlewyrchu asesiad ‘drafft’ o lesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn nodi fel Cyngor, byddwn yn gweithio tuag at Ynys sy'n datblygu ac yn meithrin:

- unigolion annibynnol o fewn teuluoedd cryf sy'n byw mewn cymunedau iach sydd yn:
  - ffynnu
  - llewyrchus
  - fywiog ac yn
  - gwydn

### Amcanion Llesiant
Mae Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar yr asesiad drafft a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr amcanion Llesiant yw:

- Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob trigolyn lwyddo, waeth beth fo'u cefndir.
- Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial.

- Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da sy'n addas i unigolion a busnesau fel ei gilydd
- Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy ac o ansawdd uchel a rheoli’r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith ar yr ynys.

Mae Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd ac Ynys Môn yn blaenoriaethu effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau gan adnabod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy’n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi.
https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/

Mae safle we Llesiant Gwynedd a Mon yn rhoi linc i wybodaeth am ddata sydd yn perthnasol i Ynys Mon
https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-4-4-22-2-Tablau-Data-Asesiad-o-Leisant-Lleol-Gwynedd-a-M244n.pdf

**Cynllun Corfforaethol Mon,2017-22**

Fel nodwyd eisoes mae’r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r angen i weithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus’ ar angen i gydlynu yn effeithiol i daclo tlodi.

Ers 2013 mae pob ymgynghoriad gan y Cyngor wedi derbyn neges glir i gefnogi'r bobl fwyaf bregus, datblygu'r economi a sicrhau llesiant pobl yr Ynys. Y blaenoriaethau hyn felly yw sail y meysydd ffocws yn y cynllun corfforaethol.

## 5. Pam bod angen taclo tlodi?

Wrth lunio’r Strategaeth daethpwyd ar hyd nifer o wybodaeth am effaith tlodi, mae’r isod yn crynhoi ychydig o’r gwaith ymchwil:

Mae gwybodaeth gan Uned Ystadegau ac Ymchwil yn dangos gwybodaeth diweddaraf am dlodi ar draws Cymru, gweler yr linc isod:

https://www.slideshare.net/YstadegauCymru/tlodi-incwm-cymharol-prif-ffigurau-2018?next_slideshow=1

https://gov.wales/statistics-and-research/households-below-average-income/?lang=cy

**Tlodi Tanwydd**

Mae Tlodi Tanwydd yn effeithio nifer o bobl oherwydd:

- Cynnydd mewn costau ynni
- Dim cynnydd mewn incwm ac effaith diwygio lles
- Tai preifat aneffeithiol lle na all tenant wella ei sefyllfa ei hun
- Dulliau gwresogi aneffeithiol, yn enwedig o fewn sector breifat
- Tariff ynni yn tueddu i fod yn uwch i bobl fregus oherwydd nad ydynt yn newid cyflenwyr neu yn defnyddio ‘meters pre-paid’

Gweler map ar y linc:

https://gov.wales/docs/desh/policy/090129fuelmapangleseyen.pdf

Mae gofynion ECO ar gwmnïau ynni yn golygu bod rhaid iddynt roi cymorth i rai sydd yn stryglo i gynhesu eu cartref sef rhai sydd ar gyflogau isel ac yn fregus.

Mae Gwaith Ymchwil gan **JRF** yn dangos mai costau tŷ sydd yn cael effaith mwyaf ar aelwydydd ym Mhrydain, gyda 3.4 miliwn yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf gyda llawer yn byw yn y sector breifat, gyda 70% yn gwario mwy na thraen eu hincwm ar gostau tŷ.

Gall tenantiaid tai cymdeithasol gael eu heffeithio yn ogystal, gan fod y berthynas rhwng pa mor sensitif yw lefelau rhenti i lefelau tlodi yn agos iawn. Mae budd dal tai wedi bod o gymorth i rai sydd yn methu talu eu costau tŷ, tra ar yr un pryd wedi cyfrannu at ddiffyg cymhelliad ariannol i weithio ac wedi creu cylch tlodi. Mae Credyd Uniongyrchol yn symud i ffwrdd o hyn. Ond, mae gosod lefel ar faint all aelwyd ei hawlio mewn budd dal yn golygu bod llawer yn gorfod defnyddio arian sydd i fod yn rhan o gostau byw ar gyfer costau tŷ.

Mae LLC wedi comisiynu cyfres o adroddiadau ar effaith Diwygio Lles

https://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?skip=1&lang=cy

Mae gwybodaeth gyfredol gan Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod

- 98 % yn hawlio Credyd Cynhwysol Gwasanaeth Llawn (UCFS) ar lein
- 54% yn gallu cofrestru cais heb unrhyw gymorth
- 30% yn gweld hi'n anodd gwirio eu hunain ar-lein (Identity verification)
- 43% o hawlwyr angen mwy o gefnogaeth i gofrestru ei cais
- 31% angen cefnogaeth barhaol i reoli ei chyfri digidol UCFS
- 33% gydag ôl-ddyled rhent ag yn cael hi yn anodd talu rhent

**Rhentu yn y sector breifat**

Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Sheffield Hallam yn dangos bod tenantiaid sydd yn byw mewn tai sector preifat yn goddef tai oer gan eu bod yn poeni am gostau gwresogi uchel a byddent yn cael eu taflu allan os byddent yn cwyno.

**Tlodi a Phobl Hyn**

Mae diwygio lles a mesuriadau caledi wedi golygu llai o wariant ar wasanaethau ar gyfer pobl hyn. Mae Age Uk yn nodi bod bron i filiwn o bobl hyn hefo gofynion gofal cymdeithasol sydd ddim yn cael eu cwrdd.

Wrth gymharu data o'r Cyfrifiad, mae pobl sydd a'i gweithgareddau wedi cyfyngu 'llawr' oherwydd problem iechyd neu anabledd yn uwch na 3 y cant yn uwch yn Gymru (11.9%) na Lloegr (8.3%) yn 2011.

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilityinenglandandwales/2013-01-30

**Tlodi mewn gwaith oherwydd cyflogau isel**

Adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn dangos cynnydd mewn tlodi i deuluoedd sydd mewn gwaith. Mae diffiniad o gyflog isel yn cael ei osod ar £7.43 yn y gwaith ymchwil hwn.

Mae rhai sydd yn gweithio o fewn gwasanaethau arlwyo a llety mwyaf tebygol o fod ar gyflogau isel, gyda bron i 60% o weithlu Cymru o fewn y categori hwn. Mae rhai sydd yn

gweithio o fewn gofal preswyl, cyfanwerthu a mân-werthu hefo lefel isaf o gyflogau, gyda thua 40% o'r gweithlu yn y categori hwn.

Mae adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn cydnabod fod mynediad I waith yn anos pan mae unigolion yn byw mewn ardal wledig.

http://ppiw.org.uk/files/2016/06/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf

Bydd datblygiadau cynlluniau mawr ar yr Ynys yn cael effaith ar gyflogau dros y blynyddoedd nesaf.

**Effaith ar ffordd mae pobl yn gwneud penderfyniadau**

Mae adroddiad gan JRF yn dangos fel mae byw mewn tlodi yn effeithiol ffordd mae pobl yn gwneud penderfyniadau:

https://www.jrf.org.uk/report/how-poverty-affects-peoples-decision-making-processes

Mae'r astudiaethau yn dangos bod rhai sydd yn byw mewn tlodi neu yn agos at dlodi yn profi newid yn eu prosesau seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol a all llesteirio eu gallu i wneud penderfyniadau fyddai o fudd yn y tymor hir. Mae nifer o benderfyniadau ac ymddygiad isymwybod yn delio gyda'r presennol yn hytrach na'r dyfodol a'r damcaniaethol. Mae penderfyniadau felly wedi eu haddasu a'u cyfyngu i'r amgylchiadau presennol.

**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)**

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac maent yn cael eu cofio drwy gydol oedolaeth.

Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef cam-drin meddyliol, rhywiol a chorfforol i gael eu magu mewn cartref lle ceir cam-drin domestig, cam-drin alcohol, rhieni'n gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau.

Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac o ansawdd isel yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd a gwrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, ac yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn troseddau ac yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o'r gymdeithas yn y pen draw.

**Tlodi Plant**

Mae data gan End Child Poverty, 2018 yn dangos bod 3812 p blant mewn tlodi, sef 27.2% o blant mewn tlodi.

http://www.endchildpoverty.org.uk/poverty-in-your-area-2018/

# ATODIAD 1

| ONS code | Percentage of children in poverty, July-Sept 2017 | BEFORE HOUSING COSTS | | AFTER HOUSING COSTS | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Local Authority and wards* | Number of children | % | Number of children | % |
| **W06000001** | **Isle of Anglesey/Ynys Môn** | **2,425** | **17.33%** | **3,812** | **27.24%** |
| W05000981 | Aethwy | 125 | 10.27% | 202 | 16.63% |
| W05000982 | Bro Aberffraw | 118 | 17.85% | 185 | 27.97% |
| W05000983 | Bro Rhosyr | 139 | 13.40% | 221 | 21.38% |
| W05000984 | Caergybi | 407 | 22.53% | 631 | 34.97% |
| W05000985 | Canolbarth Môn | 345 | 16.85% | 545 | 26.60% |
| W05000986 | Llifôn | 176 | 13.98% | 281 | 22.29% |
| W05000987 | Lligwy | 167 | 17.26% | 261 | 27.01% |
| W05000988 | Seiriol | 113 | 11.74% | 181 | 18.88% |
| W05000989 | Talybolion | 253 | 19.65% | 392 | 30.50% |
| W05000990 | Twrcelyn | 250 | 18.14% | 392 | 28.40% |
| W05000991 | Ynys Gybi | 311 | 22.58% | 476 | 34.65% |

## 6. Gosod Gwaelodlin

Mae’r tablau isod yn rhestr y gweithgareddau fydd yn digwydd ar draws Gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a hir gan ddefnyddio'r 5 thema strategol gan ddiffinio tymor byr o fewn y blwyddyn, tymor canolig 2-3 blwyddyn, a thymor hir yn 4-5 mlynedd:

**ATODIAD 1**

| **Blaenoriaeth1:** | **Twf economaidd i bawb- drwy gael swyddi gwell, swyddi lleol a chymorth i bobl allu cael gwaith gweithredu drwy:** | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Economaidd** | **Tymor byr**<br><br>Cyflawni cynlluniau TRI Llywodraeth Cymru gan ddarparu gwybodaeth am nifer ac effaith y cynlluniau | **Tymor Canolig**<br><br>Peilota Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol https://futuregenerations.wales/cy/documents/mae-fframwaith-cenedlaethaur-dyfodol/<br><br>Future Generations Framework<br><br>Cefnogi a dylanwadu Cais Twf, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru | **Tymor Hir**<br><br>Sicrhau buddsoddiad o fewn sector fusnes preifat er mwyn cynyddu swyddi yn lleol<br><br>Uchafu buddion economaidd lleol drwy Wylfa Newydd a datblygiadau newydd eraill |

Tudalen 45

| **Blaenoriaeth 2:** | **Cynnydd mewn addysg a sgiliau - sicrhau safon uchel o ddysgu, prentisiaeth, sgiliau ar gyfer oedolion a chyngor gyrfaol da gan weithredu drwy:** | | |
|---|---|---|---|
| **Addysg** | **Tymor Byr**<br><br>Cynnig gwasanaeth gofal plant i ardaloedd penodedig gyda bwriad o'i gyflwyno ar draws yr Ynys<br><br>Addysg gydol oes- darparu hyfforddiant ar wella sgiliau digidol gan adrodd ar nifer fydd hefyd o gymorth ar gyfer newidiadau diwygio lles | **Tymor Canolig**<br><br>Darparu gweithgareddau i annog teuluoedd gymryd rhan mewn digwyddiadau celf a chymdeithasol gan adrodd ar nifer sydd wedi cymryd rhan<br><br>Nifer sydd wedi cymryd rhan drwy Dechrau'n Deg | **Tymor Hir**<br><br>Rhaglen moderneiddio Ysgolion er mwyn rhoi'r cyfleusterau gorau i wella cyfleoedd addysg<br><br>Cyflawni Strategaeth STEM Ysbrydoli Pobl Ifanc Ynys Môn |

| **Blaenoriaeth 3:** | **Cryfhau teuluoedd a chymunedau -darparu gwasanaethau sydd yn cefnogi teuluoedd a chymorth blynyddoedd cynnar, mynediad amserol i wasanaethau fel iechyd meddwl** | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Plant** | **Tymor byr**<br><br>Adolygu dulliau ymyrraeth a chynnal teuluoedd er mwyn gallu targedu adnoddau yn effeithiol<br><br>Adrodd ar nifer o blant sydd wedi gwireddu eu hamcanion o fewn Cynlluniau drwy Teulu Môn | **Tymor Canolig**<br><br>Cynnig gwasanaethau ataliol drwy Teulu Mon a Dechrau'n Deg<br><br>Gwireddu Strategaeth Ataliol ar gyfer Plant a Theuluoedd | **Tymor Hir**<br><br>Gallu mesur effaith o gyfrannu at wydnwch teuluoedd |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Oedolion** | **Tymor byr**<br><br>Darparu gwasanaeth Cydlynwyr Cymunedol er mwyn atal unigedd ac hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasu | **Tymor Canolig**<br><br>Datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol | **Tymor Hir**<br><br>Datblygu model o gyd- weithredu er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau |
| **Gweithio gyda trydydd sector a phartneriaid** | Adnabod cyfleoedd yn ystod cyfnod y Strategaeth gan sicrhau gwerth cymdeithasol i unrhyw ymyrraeth ar y cyd | | |

| Blaenoriaeth 4: | **Arbed costau a lleihau'r galw- drwy ddarparu tai fforddiadwy a gwasanaethau fel trafnidiaeth, we a lleihau gofynion fel costau ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni drwy weithredu yn ystod y tymor byr / canolig ar:** |
|---|---|
| **Gwasanaethau Tai** | Gwireddu Cynllun Busnes HRA - Tymor Hir<br><br>Gwireddu Strategaeth Asedau Tai-Tymor Byr<br><br>Gwireddu Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl – Tymor Canolig |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | Cynnig gwasanaethau drwy Teulu Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau yn Deg, Taliadau Uniongyrchol – Tymor Byr |
| **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** | Darparu dulliau digidol sydd yn eu gwneud yn hawdd i drigolion gysylltu gyda'r Cyngor- Tymor Byr |
| **Gwasanaeth Refeniw a Budd daliadau** | Mabwysiadu Polisi Casglu Dyledion Corfforaethol – Tymor Canolig |
| **Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | Darparu gwasanaeth Cludiant Cymunedol Mon gan ddangos nifer sydd yn defnyddio'r gwasanaeth<br><br>Darparu gwasanaeth cludiant cyhoeddus sydd yn seiliedig ar anghenion teithwyr i allu cyrraedd canolfannau sydd yn rhan o strategaeth cynllunio lle- tymor byr |

| **Blaenoriaeth 5:** | **Cefnogaeth i bobl sydd mewn tlodi gan weithredu drwy:** | | |
|---|---|---|---|
| | **Tymor byr** | **Tymor Canolig** | **Tymor Hir** |
| **Ar lefel gorfforaethol** | Gweithredu ar gynllun gwaith Hwb Diwygio Lles<br><br>Sicrhau bod gwasanaethau ataliol ar gael drwy fframwaith ataliol-Gwasanaethau Oedolion, Plant a Chefnogi Pobl | Datblygu Strategaeth Cynllunio Lle<br><br>Ymateb i amcan o fewn Cynllun Llesiant i adnabod effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau | Adolygu Strategaeth Gwrth Dlodi sydd yn seiliedig ar ddata er mwyn helpu pobl rhag mynd i dlodi |

## ATODIAD 1

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Paratoi ar gyfer dosbarthu grant ataliol wedi ei gyfuno gan LLC,2019 ymlaen gan asesu effaith hyn<br><br>Cymraeg.pdf | Cydweithio gyda'n partneriaid er mwyn cynnig gwasanaethau amgen ac sydd yn cynnal pobl rhag mynd i dlodi | | |

## 7. Ymatebion dilyn cyfnod ymgynghori

Mae ymgynghori wedi digwydd drwy safle we y Cyngor, cyfryngau cymdeithasol a linc wedi ei yrru at prif bartneriaid; o'r ymatebion roedd pob un yn ymateb ar ran sefydliad.

Mae'r crynodeb isod:

- Pob ymateb yn cytuno bod angen Strategaeth
- Mae pawb yn cytuno gyda pwrpas y Strategaeth
- Gan ddefnyddio data sydd yn berthnasol i Ynys Mon gellir cael gwaelodlin a ellir ei ddatblygu yn bellach
- Mae ymatebion yn dangos bod gan y Cyngor rol ganolog mewn cydlynu a chael effaith ar dlodi. Mae rhai ymatebion yn benodol i wasanaethau ac byddent yn cael eu rhannu gyda hwy.
- Mae'r trydydd sector a phartneriaid yn cydnabod bod ganddynt rol mewn delio gyda thlodi ac yn barod i weithio hefo'r Cyngor.

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 0.1 | 2.7.18 | drafft |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Strategaeth Gwrth-Dlodi |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | newydd |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Strategaeth yn cael ei gyflwyno er mwyn:<br>· Cael cytundeb ar ddiffiniad o dlodi yn gorfforaethol<br>· Codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgaredd Gwasanaethau a phartneriaid<br>· Datblygu dull o fesur effaith Gwasanaethau a'r daclo tlodi o fewn ein cymunedau |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Pob Gwasanaeth |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Gwasanaethau Tai, Uned Strategol |

**ATODIAD 2**

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Gwasanaethau a phartneriaid |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Gall bob bolisi gael effaith ar dlodi |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Trigolion Ynys Mon |



| **9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydy'** | **Nac ydy'** |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | **x** | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **x** | |
| **Meithrin perthynas dda** | **x** | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | **x** | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | | |

**ATODIAD 2**

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | **yndi** |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | **oes** |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | **Na fydd** |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | **Bydd** |
| Mae **Atodiad 1** i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – **mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.** | |
| **14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma?**<br>(Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | **Nag oes** |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2) | Cymru lewyrchus | **x** |
| | Cymru gydnerth | **x** |
| | Cymru iachach | **x** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **x** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **x** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **x** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **x** |
| **16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | **Cyfnod o ymgynghori wedi bod** | |
| **17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | **Data cenedlaethol a lleol** | |
| **18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?**<br>**Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | | |

## Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **Cadarnhaol** | | |
| **Anabledd** | **Cadarnhaol** | | |
| **Rhyw** | **Cadarnhaol** | | |
| **Newid Rhyw** | **Dim effaith** | | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | **Dim effaith**<br>**Dim effaith** | | |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | **Dim effaith** | | |
| **Crefydd neu Gred** | **Dim effaith** | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Dim effaith** | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | **Cadarnhaol** | | |
| **Hawliau Dynol** | **Cadarnhaol** | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | **Cadarnhaol** | | |
| **Unrhyw fater arall perthnasol, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig** | | | |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Dim effaith negeddyol wedi ei adnabod |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).** **(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | Strategaeth yn hyrwyddo cyfleoedd pobl i allu cymryd rhan yn eu cymuendau ac i fod yn wydyn |
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Nag oes |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Pwyllgor Sgrwtini yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Cynllun gwaith mewn lle |

## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth.  Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'.  Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 →2018/2019

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2018 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Tudalen 61

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

Eitem 5 ar y Rhaglen

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | **Mehefin, 2018** | |
| **19 Mehefin, 2018**<br><br>Committee Room 1/ 2pm | Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg | - |
| | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris | Monitro Perfformiad |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad<br>(Pendnderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17) |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Gorffennaf, 2018** | |
| **9 Gorffennaf 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Medrwn Môn | Monitro Perfformiad |
| | Strategaeth Gwrthdlodi | Datblygu Polisi |
| | **Medi, 2018** | |
| **24 Medi 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad Blynyddol -Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ( Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad |
| | Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Monitro Perfformiad |
| | Canllawiau Atodol Cynllunio – Iaith Gymraeg (i'w gadarnhau) | Ymgynhori |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| | **Tachwedd, 2018** | |
| **13 Tachwedd 2018**<br><br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC ( i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Chwefror , 2019** | | |
| **5 Chwefror 2019**<br><br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad – Perfformiad Ysgolion Môn (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 (i'w gadarnhau-dyddiad cynharach)) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Mawrth, 2019** | | |
| **12 Mawrth 2019**<br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini o cynnydd ar weithredu y Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Ebrill, 2019** | | |
| **9 Ebrill 2019**<br><br>Committee Room 1/ 2pm | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | | |
| **Mehefin / Gorffennaf , 2019** | Sgriwtini o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| **i'w gadarnhau** | Fargen Twf gogledd Cymru | |
| **i'w gadarnhau** | Safleon Sispsiwn a Theithwyr | |

This page is intentionally left blank